Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned

Mawrth 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddLlywLTai**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned

Mawrth 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddTai**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Chasgliad** .......... **6**

**Cyflwyniad** .......... **8**

Casglu tystiolaeth .......... 8

Cyd-destun .......... 9

**1. Archwilio a Llywodraethu** .......... **10**

Archwilio - y fframwaith deddfwriaethol .......... 10

Digon o gymorth i gynghorau cymuned .......... 16

Ein barn ni .......... 17

**2. Safonau ymddygiad** .......... **19**

Cod Ymddygiad .......... 19

Hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad .......... 22

Ein barn ni .......... 25

Datrys yn lleol / Cymrodeddu .......... 26

Ein barn ni .......... 29

**3. Clercod cynghorau cymuned a thref** .......... **31**

Rôl clercod .......... 31

Cymwysterau ar gyfer Clercod .......... 32

Ein barn ni .......... 34

Cyfuno adnoddau clercio .......... 34

Ein barn ni .......... 37

**4. Rhesymoli cynghorau cymuned** .......... **38**

Clystyru cynghorau .......... 40

Ein barn ni .......... 40

**5. Y berthynas rhwng Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned . 42**

Ein barn ni ... 45

**6. Digidol ... 46**

Ein barn ni ... 49

**7. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ... 51**

Meini prawf cymhwystra ... 52

Ein barn ni ... 54

**Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ... 55**

**Atodiad 2 Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ... 57**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae dros 700 o gynghorau tref a chymuned yn gwasanaethu eu hardaloedd lleol ledled Cymru. Bydd maint y cynghorau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol, ond mae pob un yn rhannu'r amcanion o fod eisiau cyflawni a sicrhau'r canlyniadau gorau i'w cymunedau.

Mae adroddiadau eraill wedi edrych ar y sector cynghorau cymuned dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae pob un wedi gwneud ei argymhellion ei hun. Ymhlith y prif feysydd y mae ein hadroddiad ni'n canolbwyntio arnynt mae'r trefniadau archwilio, safonau ymddygiad a chymorth i glercod cynghorau.

Mae cynyddu amrywiaeth ar draws y sectorau llywodraeth leol wedi bod yn thema bwysig drwy gydol ein gwaith, a gwyddom fod ymddygiad gwael yn un o'r prif ffactorau sy'n atal pobl rhag sefyll neu barhau mewn rôl etholedig. Roedd gennym ddiddordeb mawr, felly, yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac rydym wedi gwneud rhai argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant, a allai, yn ein barn ni, arwain at lai o gwynion ynghylch cydraddoldeb a pharch.

Mae angen cymorth clercio cymwys ar bob cyngor er mwyn gweithredu'n effeithiol. Felly, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar drefniadau clercio a pha mor ddigonol yw'r cymorth sydd ar gael i glercod.

Rydym wedi gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a'r sector. Credaf y gall yr argymhellion hyn wneud gwahaniaeth cadarnhaol, a hefyd weithio law yn llaw â materion a godwyd mewn adroddiadau eraill yn ddiweddar.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

**John Griffiths AS**
Cadeirydd

# Argymhellion  a Chasgliad

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i gydgynhyrchu system archwilio bwrpasol newydd ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiwn o ddefnyddio canllawiau statudol drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr tref a chymuned ar y cod ymddygiad, ac ymgynghori'n ffurfiol â'r sector ar y cynnig........ Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig bwrsariaeth i Un Llais Cymru ar gyfer darparu ei hyfforddiant ar y cod ymddygiad, a'i gynnal ar y lefelau presennol. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio opsiynau i hwyluso mwy o ddefnydd o ddatrysiadau lleol i anghydfodau. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i archwilio mecanweithiau i alluogi'r sector cynghorau tref a chymuned i gael cymorth gan swyddogion monitro a gwasanaethau AD awdurdodau lleol. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chorff perthnasol, megis Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i gynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau maint er mwyn sicrhau dull cenedlaethol gyson o gynnal adolygiadau cymunedol dan arweiniad prif gynghorau. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector cynghorau tref a chymuned i archwilio mwy o gyfleoedd ar gyfer clystyru ac i annog rhannu arferion da. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddwy haen o lywodraeth leol i sicrhau y gellir cynnal adolygiad o'r siarter enghreifftiol rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned. ........ Tudalen 45

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cynllun gweithredu iechyd digidol cynghorau cymuned a thref a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC ac Un Llais Cymru i annog awdurdodau lleol i:

- ddarparu cymorth TG i gynghorau tref a chymuned drwy gytundebau lefel gwasanaeth, a
- rhannu cyfleusterau i'w defnyddio gan gynghorau tref a chymuned i gynnal cyfarfodydd hybrid. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol fel mai dim ond unwaith yn ystod tymor etholiadol y mae'n ofynnol i gynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gadarnhau eu cymhwystra. ........ Tudalen 54

**Casgliad 1.** Hoffem i Lywodraeth Cymru wneud mwy, ar y cyd â'r sector, i godi ymwybyddiaeth o'r fwrsariaeth ac annog mwy o glercod i astudio ar ei chyfer. Gallai'r posibilrwydd o dalu clercod am yr amser hyfforddi ychwanegol fod yn opsiwn i'w archwilio. ........ Tudalen 34

# Cyflwyniad

**1.** Mae cynghorau cymuned a thref yn atebol i'w hetholwyr lleol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac am gynnal a chadw eu hamwynderau lleol. Yn ôl y data diweddaraf gan StatsCymru, mae 729 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae cynghorau lleol yn amrywio'n sylweddol o ran maint a chyfrifoldebau, gyda chymunedau'n amrywio o aneddiadau gwledig bach, rhai ohonynt â llai na 200 o drigolion, i drefi mawr sy'n gwasanaethu miloedd o drigolion. O ganlyniad, mae eu cyllidebau'n amrywio yn unol â hynny, gyda rhai ag ychydig filoedd o bunnoedd yn eu cyfrifon, tra bod gan gynghorau eraill gyllideb o gannoedd o filoedd o bunnoedd.

**2.** Cynaliadwyedd llywodraeth leol yng Nghymru yw un o flaenoriaethau trosfwaol y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd. Fel rhan o hyn, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad i archwilio rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref. Y cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith yw y dylid archwilio:

- Rôl a gwerth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru;
- A yw'r sector yn addas i'r diben mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu;
- Trefniadau llywodraethu a chraffu a'u heffaith ar atebolrwydd a thryloywder;
- Capasiti technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau ac annog cyfranogiad mewn prosesau democrataidd lleol;
- Sut y mae pwerau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth yn cael eu defnyddio i gefnogi cymunedau.

## Casglu tystiolaeth

**3.** Gwnaethom gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a chynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 31 Gorffennaf, a daeth i ben ar 18 Hydref 2024. Cawsom 52 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

**4.** Gwnaethom glywed tystiolaeth lafar gan randdeiliaid ar 14 a 27 Tachwedd a chan Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet), ar 5 Rhagfyr 2024.

**5.** Gwnaethom gynnal tri grŵp trafod bord gron gyda chlercod ac aelodau cynghorau tref a chymuned ar 23 Hydref 2024 i glywed am eu profiadau bywyd. Ceir crynodeb o'n gwaith ymgysylltu ar ein gwefan.[1]

**6.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad. Mae manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gael yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

## Cyd-destun

**7.** Yn 2018, cyhoeddodd y Panel Adolygu Annibynnol ar gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ei Adroddiad Terfynol ac argymhellion.

**8.** Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gan y Panel yn awgrymu cefnogaeth gref i'r sector, ond clywodd hefyd alwadau am ddileu'r haen hon o lywodraeth yn gyfan gwbl. Yn yr adroddiad, tynnwyd sylw at sylwadau a oedd yn amlinellu "diffygion yn y system bresennol", gan ychwanegu nad yw rhai cynghorau cymuned "yn addas i'w diben". Fodd bynnag, dywedodd y Panel hefyd fod "mwyafrif llethol yr ymatebion yn trafod sut y gellid gwella'r sector".

**9.** Daeth y Panel i'r casgliad "bod yr achos wedi'i wneud o blaid cadw Cynghorau Cymuned a Thref", ac y "dylai pob ardal gael ei chefnogi gan Gyngor Cymuned a Thref". Fodd bynnag, nododd hefyd nad yw rhai cynghorau cymuned a thref yn "gynaliadwy nac yn gallu cyflawni'r rôl yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer os byddant yn aros fel y maent". Bu'r Panel hefyd yn myfyrio ar yr amrywiaeth sylweddol o ran "capasiti a gallu" yn y sector, a'r cyfraniad mae'r sector yn ei wneud fel "rhan o'r dirwedd Llywodraeth Leol ehangach".

**10.** Ym mis Ebrill 2023, sefydlodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd grŵp gorchwyl a gorffen iechyd democrataidd i archwilio achosion ymgysylltiad a chyfranogiad isel mewn cynghorau cymuned a thref. Cylch gwaith y Grŵp oedd ystyried ffyrdd o wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhwng cymunedau a'u cynghorau cymuned a chynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau i gynghorau cymuned. Cyhoeddodd y grŵp gorchwyl a gorffen ei adroddiad ym mis Tachwedd 2024.

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu, 23 Hydref 2024

# 1. Archwilio a Llywodraethu

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynghorau cymuned yng Nghymru baratoi cyfrifon a chael Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w harchwilio. Roedd consenswsc cyffredinol bod y drefn archwilio yn rhy anhyblyg i'r sector, gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dweud bod achos o blaid ailedrych ar y system.

## Archwilio - y fframwaith deddfwriaethol

**11.** Mae Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod rhaid i bob corff llywodraeth leol wneud eu cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfrifoldebau allweddol Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliadau o gyfrifon cynghorau cymuned a thref.

**12.** Ers 2020-21, mae'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn gweithredu ar gylch archwilio tair blynedd. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"in two years, we will undertake a very basic audit, which requires councils to submit very limited information to us for their income and expenditure account, six main expenditure headings, and those need to tally correctly, and some information around their annual governance statement. Then, in the third year, we will undertake a slightly fuller audit where we look for some supporting evidence for those underlying transactions and a fuller test of statements made in the governance statement."*[2]

**13.** Wrth gyhoeddi'r trefniadau yn 2020, nododd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r nod oedd dylunio rhaglen a fyddai'n bodloni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer archwilio cynghorau cymuned; rhoi sicrwydd i'r cyhoedd am wariant cynghorau; a gwneud hyn am "gost sy'n rhesymol i'r cynghorau". Dywedodd yr Archwilydd

[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 6

Cyffredinol wrthym ei fod wedi ceisio datblygu trefn sy'n ceisio bod mor ysgafn a chydymdeimladol â phosibl o fewn y fframwaith deddfwriaethol.[3] Nododd hefyd fod y sector yn cael hysbysiad ymlaen llaw o ffocws yr archwilydd ar gyfer yr archwiliad sydd i ddod, sy'n rhywbeth na roddir i gyrff cyhoeddus eraill.

**14.** Nid yw'r ffioedd a godir gan Archwilio Cymru yn fwy na chost lawn cyflawni'r archwiliad. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym:

> *"in the case of a council that is straightforward and clean, the fee for one of those basic audits is going to be in the region of £200 to £400. For the fuller audit in the third year, it's probably £400 to £1,500, depending on the size and complexity of the council."*

**15.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"If councils can comply with the requirements of legislation, provide us with the basic information that we require, with some basic supporting documentation and record-keeping evidence, then the audit will be extremely straightforward. Unfortunately, in a quite significant number of cases, councils aren't able to do that."*[4]

**16.** Mae tystiolaeth Archwilio Cymru yn nodi bod tua 50 y cant o gynghorau cymuned yn derbyn barn archwilio amodol, pan fydd cynghorau'n methu â chydymffurfio â chyfrifoldebau statudol neu pan fydd archwilwyr yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth yn y ffurflen flynyddol wedi'i chamddatgan. Dengys y dystiolaeth fod hyn yn cynyddu i 58 y cant pan gynhelir yr archwiliad 'llawn' bob tair blynedd.

**17.** Mae Archwilio Cymru wedi crynhoi cyfradd y farn archwilio amodol yn ôl maint y cyngor ar gyfer 2022-23.

[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 88
[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 7-9

| Incwm/gwariant | Nifer y cynghorau | Archwiliadau wedi'u cwblhau | Barnau Amodol | Canran o archwiliadau wedi eu cwblhau â Barn Amodol | Archwiliadau llawn wedi eu cwblhau | Barnau Amodol Archwiliadau llawn | Canran o archwiliadau llawn â Barn Amodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llai na £10,000** | 209 | 191 | 104 | 54% | 62 | 37 | 60% |
| **£10,001 - £20,000** | 142 | 125 | 72 | 58% | 37 | 23 | 62% |
| **£20,001 - £50,000** | 155 | 146 | 58 | 40% | 48 | 21 | 44% |
| **£50,001 - £100,000** | 81 | 77 | 35 | 45% | 26 | 16 | 62% |
| **£100,001 - £200,000** | 67 | 63 | 36 | 57% | 19 | 15 | 79% |
| **More than £200,000** | 83 | 79 | 32 | 41% | 24 | 13 | 54% |
| **Cyfanswm** | 737 | 681 | 337 | 49% | 216 | 125 | 58% |

**18.** Roedd y dystiolaeth gan Archwilio Cymru hefyd yn tynnu sylw at rai o'r materion archwilio cyffredin sy'n codi, gan nodi bod "tua 30% o gynghorau bob blwyddyn yn darparu cyfrifon nad ydynt yn rhifyddeg gywir". Mae'r dystiolaeth yn cynnwys crynodeb o achosion y gwallau rhifyddeg hyn.[5]

| | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|
| **Cyfrifon wedi'u prosesu** | 703 | 600 |
| **Camgymeriadau talgrynnu yn unig** | 126 | 105 |
| **Camgymeriadau teipograffyddol yn unig** | 29 | 14 |
| **Camgymeriadau rhifyddeg eraill** | 35 | 33 |
| **Cyfuniadau o'r uchod** | 29 | 24 |
| **Cyfanswm nifer y cyfrifon gyda gwallau rhifyddeg** | 219 | 176 |
| **Canran o gynghorau gyda gwallau** | 31 | 29 |

**19.** Dywedodd Archwilio Cymru wrthym na fyddai cyngor sy'n cyflwyno cyfrifon â gwallau rhifyddeg yn derbyn archwiliad amodol ar unwaith ac na fyddai amod ond yn cael ei ddyroddi os na ellir esbonio'r gwallau gan gofnodion sydd gan y cyngor. Ychwanegodd:

> *"we try to go as far as we possibly can to avoid qualified opinions where we're able to, and we give quite a bit of leeway to councils in doing so. There are some things where we have to apply a cut-off point. If a council says it's done something by a certain date and is required to do so by legislation, the cut-off point is the date specified in the legislation, because we can't extend and say one day late is okay, because then we have to consider: is two days late okay? So, we extend that concession, as it were. So, we try as far as possible. We give flexibility, but there are certain things we can't be flexible on."*[6]

**20.** Fodd bynnag, nododd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru fod rhai cynghorau'n teimlo y gall Archwilio Cymru fod yn "anodd"[7], ac mae

[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 39, Archwilio Cymru
[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 24-26
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 47 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru

adborth gan aelodau Un Llais Cymru yn awgrymu, mewn rhai achosion, y gallai archwilwyr ymdrin â methiannau clercio gyda mwy o gydymdeimlad.[8]

**21.** Roedd consensws cyffredinol ymhlith tystion fod y drefn archwilio bresennol yn rhy anhyblyg ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref. Dywedodd Un Llais Cymru wrthym nad oes un ateb sy'n addas i bawb o ran archwilio, gan ychwanegu ei fod yn anghymesur ar gyfer cynghorau llai o ystyried yr elfen o risg ariannol dan sylw mewn gwirionedd.[9] Nododd Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol (SLCC) nad y dull presennol yw'r mecanwaith gorau o reidrwydd[10] a'i fod yn feichus iawn.[11]

**22.** Mynegwyd barn debyg gan gynghorau unigol, gan gynnwys Cyngor Tref Y Fenni, a nododd fod y broses archwilio yn fiwrocrataidd ac yn anhyblyg, gydag un dull i bawb ac y gallai fod yn fwy hyblyg.[12] Galwodd ymateb dienw am adolygiad o reoliadau archwilio i greu proses fwy cymesur sy'n adlewyrchu graddfeydd ariannol amrywiol cynghorau[13], a chwestiynodd Cyngor Cymuned Llangynog a oes angen darparu cymaint o wybodaeth, gan awgrymu y dylid ystyried maint cyngor wrth benderfynu ar yr wybodaeth y mae angen iddo ei darparu.[14] Dywedodd y Cynghorydd Paul Evans fod baich gofynion archwilio yn cael ei chwyddo pan fo cyngor yn rhy fach i fforddio staff llawn amser, gan fod y baich yn disgyn wedyn ar y cynghorwyr gwirfoddol, sy'n draenio cryn dipyn o adnoddau prin cyngor cymuned y gellid eu cyfeirio at ddibenion mwy creadigol.[15]

**23.** Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at drefniadau archwilio yn Lloegr, lle mae maint incwm a gwariant cyngor yn cael ei ystyried. Esboniodd tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan Archwilio Cymru fod y mwyafrif o gynghorau plwyf yn Lloegr sydd ag incwm a gwariant o lai na £25,000 wedi'u heithrio o ofynion archwilio arferol, ond ei bod yn ofynnol i bob cyngor gwblhau, cymeradwyo a chyhoeddi 'Adroddiad Llywodraethiant ac Atebolrwydd Blynyddol'.[16] Wrth sôn am y fframwaith 'bandio' yn Lloegr, dywedodd SLCC wrthym:

---

[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 22, Un Llais Cymru
[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 252
[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 172
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 175
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 05 Cyngor Tref Y Fenni
[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 12 Dienw
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 36 Cyngor Cymuned Llangynog
[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 52 Unigolyn
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Papur 3

*"This has meant that local council audit in England is operating broadly successfully, audits are being completed on time, and communities have access to auditors and to comment."*[17]

**24.** Aeth SLCC ymlaen i ddweud y gallai rhywfaint o haenu, neu rywfaint o strwythuro, fod yn fuddiol yng Nghymru[18] ac, er efallai nad yw'r system yn Lloegr heb ei beiau, byddai dysgu ohoni yn fan cychwyn da.[19]

**25.** Argymhellodd Un Llais Cymru fod angen adolygu'r dull presennol o gyhoeddi barn amodol neu ddiamod, ac awgrymodd y dylai materion a godwyd ynghylch archwiliadau fod yn seiliedig ar system goleuadau traffig.[20]

**26.** Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod achos o blaid ailedrych ar y system, gan nodi bod y mwyafrif llethol o gynghorau'n fach iawn. Dywedodd wrthym:

*"It feels disproportionate to me that the weight of a national audit office is being applied to those councils in audit. But that's what the legislation requires and I can't ignore that."*

**27.** Aeth ymlaen i awgrymu y gallai system newydd gymhwyso trefn wahanol i'r cynghorau â throsiant o lai na £10,000, a allai fod yn fwy seiliedig ar archwilio mewnol neu gydag ymyriadau achlysurol gan Archwilio Cymru, gan alluogi Archwilio Cymru i ganolbwyntio ar y cynghorau sydd â mwy o wariant ac felly'n ysgwyddo mwy o risg. Awgrymodd y byddai dull o'r fath yn fwy cymesur i siâp y sector.[21]

**28.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan Archwilio Cymru yn nodi modelau archwilio amgen posibl ar gyfer Cymru, ond mae'n nodi, o ystyried y gofyniad statudol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon pob cyngor cymuned bob blwyddyn, y byddai newidiadau sylweddol i'r gofynion archwilio yn gofyn am ddiwygiadau i Ddeddf 2004 yn ôl pob tebyg.[22]

**29.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod ganddi feddwl agored iawn i'r syniad o adolygu'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau tref a chymuned.[23] Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, er bod Llywodraeth Cymru

[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 172
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 174
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 177
[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 258
[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 88
[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Papur 3
[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 87

yn agored i edrych ar sut y gellid gwella'r drefn, y byddai'n bwysig nad yw unrhyw drefn newydd yn colli unrhyw atebolrwydd na thryloywder i'r cyhoedd o ran sut y mae'r praesept neu'r incwm yn cael ei wario yn yr ardaloedd lleol hynny.[24]

## Digon o gymorth i gynghorau cymuned

**30.** Gall cynghorau cymuned a chlercod gael cymorth a chyngor ymarferol yn ymwneud ag archwilio a llywodraethiant gan sefydliadau fel Un Llais Cymru ac SLCC. Dywedodd Un Llais Cymru wrthym eu bod yn helpu cynghorau gyda'u rheolaeth ariannol drwy gyhoeddi canllawiau datblygu ymarfer ar yr amserlen ariannol yn ystod y flwyddyn a thrwy'r tri modiwl hyfforddi penodol y maent yn eu cynnig.[25]

**31.** Mae'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned, a ddatblygwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru, SLCC a Llywodraeth Cymru, ac a gefnogir gan sylwebaeth gan Archwilio Cymru, yn rhan allweddol o'r cymorth hwnnw. Mae'n cynorthwyo cynghorau i adolygu'r trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethiant ac atebolrwydd sydd ganddynt ar waith, ac yn ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn a sut y gellid eu gwella. Nododd SLCC mewn tystiolaeth mai'r pecyn cymorth yw'r cyfan sydd ei angen yn y bôn i gynghorau sicrhau llywodraethiant da.[26] Cyfeiriodd sawl cyngor at ddefnyddioldeb y pecyn cymorth, gan gynnwys Caerfyrddin, Llandochau, Llys-faen, Bwcle, Llangynog, Sain Ffagan, Pontarddulais, Pennar, Aber-porth a Kinnerton Uchaf.

**32.** Fodd bynnag, nododd rhai cynghorau feysydd i'w gwella hefyd o ran y cymorth y gellid ei ddarparu. Wrth gyfeirio at y pecyn cymorth, nododd Kinnerton Uchaf fod y gwaith o gwblhau a gweithredu'r ddogfen ganllaw bwysig hon yn ddwys o ran adnoddau, sy'n broblem arbennig i aelod-gynghorau llai[27], tra dywedodd y Fenni nad yw'r hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru yn cwmpasu'r hyn sydd ei angen er mwyn cyflwyno adroddiadau archwilio llawn i Archwilio Cymru. Awgrymodd Cyngor Tref Y Fenni:

> *"Enabling some sort of mentoring system, or point of contact, to allow RFO's the opportunity to ask specific questions in order to*

[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 96
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 254
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 33 Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 51 Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf

> *fulfil the requirements of the basic and full audit submissions would be more beneficial."*[28]

**33.** Mae Un Llais Cymru yn nodi mai un o flaenoriaethau eu gwaith gyda Llywodraeth Cymru yw nodi cynghorau, mewn cydweithrediad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n debygol o fod angen cymorth wedi'i dargedu i'w galluogi i gydymffurfio â gofynion archwilio. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr angen am gyllid ychwanegol a allai gefnogi cynghorydd arbenigol yn Un Llais Cymru pe bai disgwyliad y byddai angen iddynt ddarparu mwy o gymorth i gynghorau ymwneud â'r broses archwilio.[29]

**34.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym fod Archwilio Cymru yn gwneud cryn dipyn i geisio cynorthwyo'r sector, gan ychwanegu:

> *"we actively support One Voice Wales, the society of clerks, the Welsh Government and so forth in extensive guidance and support for the sector, and support for training of clerks and so on. We communicate every year to councils to give them forewarning of the focus we are likely to place in any given year in our audit of the annual governance statement."*[30]

**35.** Esboniodd Archwilio Cymru hefyd eu bod yn ymgysylltu â'r sector drwy roi adborth, gan ddweud eu bod yn tynnu sylw at faterion ac yn gwneud argymhellion iddynt ar gyfer gwella yn ystod y blynyddoedd i ddod.[31]

## Ein barn ni

**36.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y fframwaith archwilio presennol ar gyfer cyfrifon cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn anaddas, ac y dylid ystyried sut y gellir gwella'r broses. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cynghorau'n atebol am eu cyllid, nid ydym yn credu mai'r system bresennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor, waeth beth fo'i faint neu ei gyllideb, ddangos llywodraethiant ac atebolrwydd effeithiol o fewn yr un drefn anhyblyg, yw'r dull mwyaf effeithiol. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd cynnal archwiliad yn feichus ac yn gostus i gynghorau llai, yn enwedig y rhai sy'n rhannu adnoddau clercio.

---

[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 05 Cyngor Tref Y Fenni
[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 255
[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 19
[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 12

**37.** Rydym yn cydnabod bod rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflawni'r swyddogaethau statudol a osodir ar y swyddfa ac rydym yn cymeradwyo sut y mae Archwilio Cymru wedi ceisio lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar gynghorau drwy roi ei gylch archwilio tair blynedd ar waith. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y gofynion yn dal i fod yn rhy feichus i lawer o fewn y sector cynghorau tref a chymuned. Nodwn sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ei hun fod y trefniadau presennol yn anghymesur ar gyfer rhai o'r cynghorau llai.

**38.** O ystyried y fframwaith cyfreithiol, rydym yn cydnabod y tebygolrwydd y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn newid y gofynion archwilio a osodir ar gynghorau cymuned. Dyma fyddai'r ffordd fwyaf priodol o ail-gydbwyso'r gofynion archwilio ar gynghorau cymuned a thref.

**39.** Rydym yn croesawu'r adnoddau a'r cymorth a ddarperir gan y sector i gynorthwyo cynghorau drwy'r broses archwilio, yn enwedig yr hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru a'r pecyn cymorth Cyllid a Llywodraethu a gynhyrchwyd ar y cyd, sy'n amlwg wedi bod yn help i gynghorau. Fodd bynnag, o ystyried y nifer uchel o gynghorau cymuned sy'n parhau i dderbyn archwiliadau amodol, credwn fod angen cymorth ychwanegol. Rydym yn cydnabod y gall ymgymryd â modiwlau hyfforddi proffesiynol gymryd amser a bod yn heriol i glercod a staff cynghorau, yn enwedig i'r rhai nad ydynt ond yn gweithio oriau cyfyngedig yn eu rôl. Wrth ddatblygu unrhyw drefniadau archwilio newydd yn y dyfodol, dylid ystyried sut y gall clercod ac unrhyw aelodau staff sy'n gweithio oriau cyfyngedig gael mynediad at gymorth o fewn eu horiau gwaith.

**40.** Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen fyddai i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cynghorau tref a chymuned ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i gydgynhyrchu system newydd, a fyddai'n ddigon cadarn i ddangos llywodraethiant ac atebolrwydd ariannol cynghorau, ond heb fod yn rhy feichus i gynghorau llai.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i gydgynhyrchu system archwilio bwrpasol newydd ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

# 2. Safonau ymddygiad

Mae'n ofynnol i aelodau cynghorau tref a chymuned, ar ôl cael eu hethol, lofnodi datganiad ffurfiol eu bod yn derbyn y swydd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor. Clywsom gefnogaeth gref i wneud hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol i gynghorwyr cymuned, a bod angen ymchwilio ymhellach i ddatblygu gweithdrefnau datrys anghydfodau lleol gwell.

## Cod Ymddygiad

**41.** Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol y mae'n ofynnol i bob awdurdod perthnasol (sy'n cynnwys cynghorau cymuned) ei fabwysiadu. Roedd yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu'r Cod yn ei ffurf enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallent wneud ychwanegiadau i'r Cod, ar yr amod eu bod yn gyson â'r Model. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gynghorwyr cymuned a thref ar y Cod Ymddygiad sy'n nodi.

> *"Fel Aelod, byddwch yn cael cynnig hyfforddiant ar y Cod, boed hynny gan eich Swyddog Monitro, eich Pwyllgor Safonau neu gorff cynrychioliadol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar unrhyw hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau gloywi, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a'r safonau y disgwylir iddynt eu harddel mewn bywyd cyhoeddus."*

**42.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn cyfeirio at safon ymddygiad o fewn cynghorau cymuned a thref, a'r broses ar gyfer ymdrin â'r cwynion hynny. Mae SLCC yn nodi mai un o'r materion mwyaf ac sy'n digwydd amlaf o fewn y sector yw bwlio ac aflonyddu ar glercod a chynghorwyr. Roedd Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol yn cytuno bod llawer o anghydfodau'n codi rhwng aelodau a swyddogion, a dywedodd nad yw cyflogi

unrhyw un yn fater syml na rhwydd y dyddiau hyn ac nad oes gan lawer o gynghorau y gallu i wneud hynny, felly nid yw'n syndod bod perthnasoedd yn chwalu.[32]

**43.** Yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn 2018, nodwyd bod "nifer o gynghorwyr yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, a hwythau mewn gwirionedd yn aelodau etholedig â chyfrifoldebau statudol" ond "fel aelodau etholedig, rhaid i gynghorwyr gyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt yn y Cod Ymddygiad". Gall hyn arwain at gwynion pan nad yw cynghorwyr cymuned yn bodloni'r safonau hynny.

**44.** Clywsom gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod cryn dipyn o'i llwyth achosion yn ymwneud â chwynion am aelodau cynghorau tref a chymuned. Nododd yr Ombwdsmon fod y gyfran o gynghorau a chynghorwyr y mae ei swyddfa'n derbyn cwynion yn eu cylch yn fach yng nghyd-destun cyffredinol y sector, ond bod y swyddfa wedi gweld cynnydd o 42 y cant mewn cwynion yn erbyn aelodau etholedig a bod y mwyafrif o'r achosion yn ymwneud â chynghorwyr tref a chymuned yn hytrach na phrif gynghorau. Ymhelaethodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

> *"We've got a caseload of 88 cases we're currently dealing with, and 59 of those cases relate to members of town and community councils. So, it is significant in terms of our work."*[33]

**45.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud wrthym am sawl cwyn:

> *"we've got about four councils where we've got three or four complaints in that one council. And, of course, what happens is, a complaint's brought forward, particularly if it's a disagreement between two individuals, and you can get retaliatory complaints coming forward, and we get drawn into that. […] We have one relatively small town council at the moment—we have 13 complaints relating to that one town council."*

[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 173
[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 4

**46.** Cwestiynodd yr Ombwdsmon pa mor dda y gall y corff hwnnw weithredu gyda chymaint o gwynion a chymaint o anghytuno rhwng, yn yr achos hwnnw, clerc y cyngor a'r aelodau.[34]

**47.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud, oherwydd yr amser a gymerir i ymchwilio i gwynion, fod y partïon dan sylw'n gweithio o dan yr amgylchiadau hynod anodd hyn am gyfnod arbennig o hir, weithiau heb fawr o gyfle i gael cymorth a/neu ryddhad o'r sefyllfa. Dywedodd fod materion yn aml yn gwaethygu i'r graddau y bydd absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei gymryd, neu y bydd aelodau staff neu gynghorwyr yn penderfynu ymddiswyddo, a dywedodd wrthym.

> *"Rydym o'r farn y byddai'n fuddiol i'r rhai sy'n canfod eu hunain yn y sefyllfa hon ac i'r Cyngor ei hun, pe gellid rhoi mecanwaith ychwanegol ar waith, efallai yn cynnwys y rhiant awdurdod lleol, i ddiogelu llesiant y ddwy ochr yn ystod y broses a sicrhau y gall busnes y cyngor barhau i weithio er budd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu."*[35]

**48.** Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r cwynion sy'n cael eu trin gan swyddfa'r Ombwdsmon yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch a bod cwynion gan aelodau yn erbyn aelodau eraill, a chwynion gan glercod yn erbyn aelodau, yn thema eithaf cryf o fewn y sector.[36]

**49.** Cyfeiriodd nifer o gyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws at ymddygiad negyddol a bygythiol, gan gynnwys bwlio. Dywedodd un cyfranogwr fod y bwlio yn y sector yn hollol erchyll ac nad oedd yn gallu cysgu'r nos. Dywedodd eraill eu bod yn cael eu bychanu a bod pobl yn gweiddi arnynt. Dywedodd un arall fod clercod yn byw mewn ofn o golli eu swyddi os na fyddant yn gwneud yr hyn y mae cynghorau ei eisiau, a dywedodd cyfranogwr arall ei fod wedi gweld pethau'n mynd yn drech na phobl a'u bod yn penderfynu gadael eu rolau.

**50.** Daeth y grŵp gorchwyl a gorffen iechyd democrataidd i'r casgliad canlynol:

> *"Dylai adolygiad, dan arweiniad cadeiryddion pwyllgorau safonau a Rhwydwaith y Pwyllgorau Safonau, gan weithio gydag Un Llais Cymru, edrych ar ba mor dda y mae'r*

[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 13
[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 10 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 5

> *fframwaith moesegol a'r broses cod ymddygiad wedi cael eu rhoi ar waith."*

### Hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad

**51.** Er gwaethaf y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n gosod dyletswydd ar gynghorau cymuned i baratoi cynlluniau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a swyddogion, nid oes gofyniad ar gynghorwyr i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath. Hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr, yn benodol hyfforddiant ar y cod ymddygiad, oedd y mater â'r consensws cryfaf ymhlith tystion.

**52.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym y bydd ei swyddfa, wrth ymchwilio i gwynion, yn gofyn a yw'r aelodau wedi llofnodi'r datganiad ac a ydynt wedi mynychu hyfforddiant ac, yn aml, nid oeddent wedi gwneud hynny. Mae ei thystiolaeth yn nodi bod ei phrofiad o ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r cod ymddygiad yn golygu ei bod hi'n gadarn o'r farn y dylai hyfforddiant i bob aelod fod yn orfodol pan fyddant yn ymgymryd â'u rôl. Dywedodd yr Ombwdsmon fod y cod, yn ei barn hi, yn dal i fod yn addas i'r diben ac y dylid canolbwyntio ar:

> *"supporting town and community councillors to understand fully what they're signing up to, giving them training and support on doing the right thing."*[37]

**53.** O ran amlder yr hyfforddiant, dywedodd yr Ombwdsmon wrthym y dylid ei ddarparu'n barhaus:

> *"even if members are returning, it's a refresher to remind them, and through the term of a council, which can be four or five years, it would be good to do at least one refresher session during that time as well."*[38]

**54.** Dywedodd Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wrthym y dylai hyfforddiant fod yn orfodol yn ddi-os, gan ychwanegu:

> *"good training is provided, bilingual training, flexible training, but, unfortunately, many councillors just simply don't engage. I*

[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 47 a 49
[38] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 80

> *don't think that's acceptable, and I think it should be mandated."*[39]

**55.** Clywsom hefyd gefnogaeth gan y sector i wneud hyfforddiant ar y cod ymddygiad yn orfodol. Roedd SLCC yn cefnogi barn yr Ombwdsmon[40], a gwnaethant nodi bod cyfle wedi'i golli pan nad oedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 wedi gwneud hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn orfodol i aelodau.[41] Aeth SLCC ymlaen i nodi er bod clercod yn cael eu llywodraethu gan god ymddygiad llywodraeth leol ar wahân, maent o'r farn y dylai clercod hefyd fod yn bresennol mewn unrhyw hyfforddiant gorfodol y mae cynghorwyr yn ymgymryd ag ef.[42]

**56.** Yn ôl Un Llais Cymru:

> *"there should be a strong expectation that all councillors should be trained in the code of conduct, and that wouldn't be a one-off for life, but maybe you do it once, and then if you start as an elected member or are co-opted in the next session of office, then you'd have to do it again. So, it would be once every five years."*[43]

**57.** Roedd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cytuno, gan awgrymu y dylid sefydlu mecanwaith fel nad yw hyfforddiant yn rhywbeth sy'n cael ei gynghori, nac yn rhywbeth sy'n cael ei awgrymu, ond yn rhywbeth gorfodol gan y byddai'n atal llawer o'r cwynion dant am ddant. Ychwanegodd:

> *"I would suggest code of conduct training being mandatory when people take up the position as a councillor, and also the fact that we get some pre training beforehand."*[44]

**58.** Ystyriodd yr Ombwdsmon a ellid ychwanegu'r gofyniad i fynychu hyfforddiant ar y cod ymddygiad at y datganiad derbyn swydd, ond nododd nad oedd wedi cymryd cyngor cyfreithiol ar y mater hwn. Ychwanegodd yr Ombwdsmon fod rôl yno i awdurdodau lleol ac, yn arbennig, i bwyllgorau safonau

---

[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 51
[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 153
[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 33 Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol
[42] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 154
[43] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 271
[44] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 288

sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer hyfforddi cynghorwyr tref a chymuned a monitro cydymffurfiaeth â hynny.[45]

**59.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod yr opsiwn o hyfforddiant gorfodol wedi'i brofi ac y cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad gan y sector. Darparodd ffigurau ar gyfer nifer y cynghorwyr a ymgymerodd â hyfforddiant ar y cod ymddygiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond cydnabu fod hwn yn dal i fod yn nifer fach ar y cyfan.[46]

**60.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen ystyried sut y gellid gorfodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y gallai canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod yn gyfrwng i'w gwneud yn ofynnol i bob cyngor roi sylw dyladwy i hyfforddiant gorfodol, ond ychwanegodd y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i orfodi cydymffurfiaeth.[47]

### Ariannu hyfforddiant gorfodol

**61.** Dywedodd Un Llais Cymru wrthym eu bod yn cynnig modiwl hyfforddi ar y cod ymddygiad a'u bod yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi hyd at 2 gynghorydd i bob cyngor, ac y gall yr hyfforddiant gostio cyn lleied ag £20 i £40.[48] Roedd SLCC o'r farn bod y costau hyfforddi presennol yn rhesymol, ac y gall y cynghorau eu hariannu eu hunain.[49]

**62.** I'r gwrthwyneb, dywedodd Cymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru wrthym y gall cost hyfforddiant fod yn afresymol i rai cynghorau bach. Gwrthwynebwyd hyn gan Un Llais Cymru, gan ddweud ei fod yn fater o flaenoriaethau a, hyd yn oed gyda phraesept o £10,000, y dylai fod modd iddynt dalu costau hyfforddiant.[50]

**63.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y bwrsariaethau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gymell pobl i fanteisio ar yr hyfforddiant ar y cod ymddygiad, ond mai dim ond £25,392 o'r cynnig grant o £62,000 a hawliwyd yn 2023-24.[51]

[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 80
[46] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 144
[47] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 139-140
[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 274
[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 155
[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 307
[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 137

## Ein barn ni

**64.** Rydym yn cydnabod mai dim ond cyfran fach o gynghorwyr cymuned a thref sy'n ymwneud â chwynion sy'n cael eu hystyried gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cynghorwyr cymuned a thref wedi ymrwymo i'w cymunedau ac yn rhoi o'u hamser a'u hegni am braidd dim neu ddim tâl. Fodd bynnag, er bod nifer y cwynion yn fach o fewn cyd-destun cyffredinol y sector, maent yn ddigon sylweddol i beri pryder. Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw'r nifer fach o gynghorau lle mae mwy nag un gŵyn wedi'u gwneud, ac rydym yn cytuno â'r Ombwdsmon bod sefyllfa o'r fath yn rhoi rhesymau i gwestiynu gallu'r cynghorau hynny i weithredu.

**65.** Mae'n destun pryder mawr bod y mwyafrif o'r cwynion y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddynt yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Er y gall dadleuon a thrafodaethau gwleidyddol arwain at anghytundebau, sy'n rhan o'r broses ddemocrataidd, dylai dangos parch at gydweithwyr, waeth beth fo'r gwahaniaeth barn, fod yn hollbwysig. Tynnodd ein gwaith blaenorol ar gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol sylw at y ffaith bod profiad o ymddygiad gwenwynig yn gwneud ymgeiswyr sy'n ystyried sefyll am swydd wleidyddol yn fwyfwy cyndyn o wneud hynny. Credwn yn gryf fod gan bob haen o lywodraeth gyfrifoldeb i sicrhau bod aelodau'n ymddwyn yn briodol.

**66.** Er gwaethaf y gofyniad i gytuno i god ymddygiad eu cyngor pan fyddant yn cael eu hethol i swydd, mae'n amlwg nad yw hyn yn atal rhai cynghorwyr rhag ymddygiad amhriodol. O ystyried bod y rhan fwyaf o achosion cwynion yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch, mae'n ymddangos i ni y gellid osgoi llawer o achosion pe bai cynghorwyr yn ymgymryd â hyfforddiant priodol. Gwyddom fod hyfforddiant priodol ar gael yn rhwydd i gynghorwyr drwy Un Llais Cymru, a chroesawn y bwrsariaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddarparu'r hyfforddiant hwnnw. Er ei fod ar gael, mae'n destun pryder gwybod mai nifer cymharol isel sy'n manteisio ar yr hyfforddiant.

**67.** Nodwn fod y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn llethol o blaid cyflwyno hyfforddiant gorfodol i gynghorau tref a chymuned ar y cod ymddygiad, fel sydd eisoes yn wir ar gyfer aelodau o brif gynghorau. Rydym yn rhannu'r farn hon, ac yn credu y gallai hyfforddiant gorfodol helpu i leihau nifer y cwynion a wneir. Credwn y dylai cynghorwyr, ar ôl iddynt gytuno i god ymddygiad eu cyngor, lofnodi ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol hefyd.

**68.** Rydym yn croesawu sylw Llywodraeth Cymru y gallai Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod yn fodd o gyflwyno gofyniad i roi sylw dyladwy i

hyfforddiant gorfodol ar y cod ymddygiad. Credwn y dylid archwilio'r llwybr hwn ymhellach. Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth, ond credwn fod enghreifftiau o sectorau eraill – megis yr egwyddor o hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr ysgol, yn rhoi cyfle i ddysgu ganddynt.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiwn o ddefnyddio canllawiau statudol drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr tref a chymuned ar y cod ymddygiad, ac ymgynghori'n ffurfiol â'r sector ar y cynnig.

**69.** Rydym yn croesawu'r bwrsariaethau hyfforddi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ond mae'r tanwariant y cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet ato yn siomedig. Er mai'r dull a ffefrir gennym yw cyflwyno hyfforddiant gorfodol, yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Un Llais Cymru i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant, gan fanteisio'n llawn ar y cyllid sydd ar gael. Er bod cost ymgymryd â'r hyfforddiant a gynigir yn gymharol rad, rydym yn cydnabod y gallai'r costau fod yn rhwystr i rai cynghorau llai. Mae'n hanfodol felly fod Llywodraeth Cymru'n cadw'r bwrsariaethau ar y lefelau presennol, gan y gallai dileu neu leihau'r cymorth hwn arwain at lai yn manteisio arno.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig bwrsariaeth i Un Llais Cymru ar gyfer darparu ei hyfforddiant ar y cod ymddygiad, a'i gynnal ar y lefelau presennol.

## Datrys yn lleol / Cymrodeddu

**70.** O dan y fframwaith presennol ar gyfer ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r cod ymddygiad, mae unigolion yn gallu cyflwyno eu cwyn yn syth i'r Ombwdsmon, heb geisio datrys y mater yn lleol yn gyntaf. Ar gyfer mân gwynion, gall datrysiad lleol atal rhai achosion rhag cyrraedd yr Ombwdsmon. Tynnodd yr adroddiad diweddar ar iechyd democrataidd cynghorau tref a chynghorau cymuned sylw at ddiffyg eglurder ynghylch pryd y byddai'n briodol defnyddio gweithdrefnau datrys lleol. Gwnaethom ystyried y model datrys lleol yn benodol, ac a yw'n gweithio'n effeithiol.

**71.** Roedd tystiolaeth yr Ombwdsmon yn nodi cefnogaeth i ddatrys yn lleol fel arf allweddol i atal cwynion rhag cael eu huwchgyfeirio, a byddai'n galluogi ei swyddfa i ganolbwyntio adnoddau ar ymchwilio i'r cwynion mwyaf difrifol lle mae gwneud hynny er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, nododd:

> *"there has been poor take up of protocols designed to support local resolution of matters between members within the Town and Community Council sector."*

**72.** Dywedodd yr Ombwdsmon hefyd y byddai'r defnydd o gyfryngu hefyd yn fuddiol mewn achosion "lle mae problemau sy'n effeithio'n negyddol ar allu'r Cyngor i weithredu"[52] a dywedodd yr hoffai weld "protocolau o'r fath [datrysiad lleol] yn cael eu gweithredu'n foddhaol ym mhob Cyngor Tref a Chyngor Cymuned ledled Cymru". Dywedodd ei thystiolaeth y gallai ei swyddfa fod yn hyderus wedyn wrth atgyfeirio unrhyw gwynion addas yn ôl i'r Cyngor i'w datrys yn lleol ar lefel leol.[53]

**73.** Roedd SLCC yn cefnogi defnydd gwell ac amlach o ddatrys lleol fel modd o ddatrys anghydfodau'n gyflym, heb fod angen cynnwys yr Ombwdsmon mewn rhai achosion:

> *"If some of this stuff could be resolved locally before it got to that level, I think it would be helpful. And I think, as the Ombudsman has pointed out in her evidence to the committee, it doesn't need to get this far, really. There can be a long time where there's maybe a clerk with a grievance against a councillor, and they have to continue working together for maybe six months or more, which puts incredible strain on both the clerk and the councillor, and it can make the council dysfunctional—maybe people will be off sick, for example."*[54]

**74.** Galwodd Un Llais Cymru am gryfhau'r protocol datrysiad lleol presennol:

> *"At the moment, it only applies on councillor to councillor; it should also apply councillor and clerk to clerk. So, if we strengthen the local resolution protocol, it would bring in an independent to help deal with that. Hopefully, that will filter and reduce the number of cases ending up with the ombudsman, and they will then be better able to deal with those."*[55]

[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 10 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 10 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
[54] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 136
[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 279

**75.** Cyfeiriodd Un Llais Cymru at y Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned y maent wedi'i ddylunio, ond gwnaethant gydnabod nad oeddent yn gwybod pa mor dda y mae'n gweithio, gan ychwanegu y gallai cynghorau tref a chymuned ymgysylltu'n well ag ef gyda chymorth allanol annibynnol. Eu hawgrym oedd y gallai swyddogion monitro helpu cynghorau i reoli'r prosesau hynny.[56]

**76.** Un o'r materion a nodwyd gan gynrychiolwyr y sector yw'r diffyg capasiti a gallu i ymdrin ag anghydfodau. Nododd SLCC y bydd cynghorau cymuned yn aml yn rhedeg allan o bobl i gyfryngu rhwng partïon sy'n anghydweld.[57]

**77.** Galwodd rhai rhanddeiliaid am i awdurdodau lleol ymyrryd yn gynharach yn y broses gwyno, naill ai drwy swyddog monitro neu bwyllgor safonau'r awdurdod lleol. Nododd yr Ombwdsmon yn ei thystiolaeth y byddai'n fuddiol i'r partïon hynny sy'n ymwneud â chwyn pe gellid rhoi mecanwaith ychwanegol ar waith, yn cynnwys y rhiant-awdurdod lleol o bosibl, i sicrhau bod busnes cynghorau cymuned yn gallu parhau er budd y gymuned.

**78.** Teimlai Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau y gallai fod rôl i bwyllgorau safonau ymyrryd yn gynnar er mwyn ceisio lleddfu problemau cyn cynnwys yr ombwdsmon:

> *"This goes to the heart, I think, of where we can make some rapid improvements and help local councils to function more effectively."*[58]

**79.** Myfyriodd SLCC ar y broses ar gyfer ymdrin â chwynion yn Lloegr, lle mae gan swyddogion monitro y rôl o helpu gyda chymrodeddu annibynnol. Yn ôl SLCC, er y gallent fod â rôl yng Nghymru, mae angen i fecanweithiau fod yn gymesur ac yn briodol a chanolbwyntio ar ddatrysiad anffurfiol a gwneud i hynny weithio.

> *"the mechanism would need to be around moderating the dialogue and helping in those scenarios, [ ] to mediate and to moderate around informal resolution. So, some intervention from the principal council along those lines is useful, but putting it all in the hands of the monitoring officer has distinct limitations. There are countless examples from across England, for example, where that is just not working effectively, and the*

[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 276
[57] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 144
[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 175

> *changes that are mooted in the standards regime in England are reflective of the fact that that isn't currently working very well."*[59]

**80.** Aeth SLCC ymlaen i nodi mai un o'r agweddau mwyaf defnyddiol ar system Lloegr yw bod pob cymuned ac awdurdod lleol wedi cytuno i set gyson o safonau, gan ychwanegu, o ganlyniad, fod pawb yn cael eu cadw i'r un safon, sy'n golygu bod swyddogion monitro yn gallu cymharu a chyferbynnu'r hyn y gallant ei wneud.[60]

**81.** Dywedodd Un Llais Cymru wrthym ei fod yn cynnig gwasanaeth cyfryngu annibynnol, allanol, ond mai prin yw'r cynghorwyr sy'n manteisio arno oherwydd y gost.

**82.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod cael y weithdrefn datrysiad lleol presennol sy'n bodoli yn gweithio yn y ffordd a fwriadwyd yn debygol o gael effaith well na chyflwyno mecanwaith newydd, ychwanegol. Ychwanegodd y byddai hyn yn dibynnu ar nifer o bethau, gan gynnwys aelodau yn deall y trefniadau sydd ar waith a'r rôl sydd ganddynt yn y broses honno.[61] Nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd gasgliad y grŵp gorchwyl a gorffen iechyd democrataidd a'i fod wedi argymell rhai ffyrdd ymarferol o wella proses y cod ymddygiad.

## Ein barn ni

**83.** Rydym yn cydnabod y gefnogaeth sylweddol a fynegwyd gan randdeiliaid ar gyfer mwy o ddefnydd o ddatrysiadau lleol i atal cwynion lefel is rhag cael eu gwneud i'r Ombwdsmon. Clywsom fod llawer o gwynion yn deillio o anghydfodau rhwng aelodau cynghorau neu rhwng aelodau a chlercod, ac rydym yn deall y straen y byddai hyn yn ei roi ar y berthynas waith wrth i ymchwiliad gael eu cynnal i gwynion a gwrth-gwynion. Yn ogystal, rydym yn deall sut y gall sefyllfaoedd o'r fath fwrw amheuaeth ar allu cyngor i weithredu. Gwelwn felly fanteision datrys anghydfodau'n lleol ac yn gyflym i'w hatal rhag cael eu huwchgyfeirio, lle bo'n briodol, a hoffem weld mwy o bwyslais ar gymrodeddu.

**84.** Rydym yn cydymdeimlo â'r farn a fynegwyd gan yr Ombwdsmon y dylai protocolau datrys lleol gael eu defnyddio gan bob cyngor tref a chymuned ledled Cymru. Rydym yn ymwybodol bod Un Llais Cymru wedi dylunio protocol

---

[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 144
[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 149
[61] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

enghreifftiol, ond nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth i gynnig barn ar ei addasrwydd. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer archwilio opsiynau ar gyfer datrys lleol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio a nodi opsiynau a fydd yn annog mwy o ddefnydd o brosesau datrys lleol, lle bo'n briodol, gyda'r nod o leihau nifer y cwynion a wneir i'r Ombwdsmon.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio opsiynau i hwyluso mwy o ddefnydd o ddatrysiadau lleol i anghydfodau.

**85.** Gwerthfawrogwn y gall ymdrin ag anghydfodau fod yn anodd i gynghorau tref a chymuned, yn enwedig cynghorau llai nad ydynt ond yn cyflogi un aelod o staff o bosibl, am ychydig oriau'r wythnos o bosibl. Bydd cael gafael ar gyngor a chymorth priodol ar gyfer ymdrin ag anghydfodau yn her sylweddol, heb unrhyw arbenigedd ar gael yn fewnol. Bydd cyngor a chymorth allanol ar gael drwy gyrff proffesiynol megis y Gymdeithas Clercod Cyngor Lleol a thrwy ymgynghorwyr preifat. Credwn y dylai fod yn haws cael gafael ar gyngor o'r fath ac rydym yn cydnabod y gallai prif awdurdodau fod yn ffynhonnell bwysig. Er ein bod yn cydnabod bod staff y prif awdurdodau eisoes yn wynebu pwysau llwyth gwaith sylweddol ac y byddai hyn yn gyfrifoldeb ychwanegol, credwn ei bod yn werth archwilio mecanweithiau i alluogi'r sector cynghorau tref a chymuned i gael cymorth gan swyddogion monitro a gwasanaethau AD prif awdurdodau.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i archwilio mecanweithiau i alluogi'r sector cynghorau tref a chymuned i gael cymorth gan swyddogion monitro a gwasanaethau AD awdurdodau lleol.

# 3. Clercod cynghorau cymuned a thref

Mae clercod cynghorau cymuned a thref yn cael eu cyflogi gan y cyngor, ac yn atebol i'r cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae staff sy'n gweithio i'r cyngor, megis dirprwy glercod neu swyddogion ymgysylltu, yn cael eu rheoli gan y Clerc ac yn uniongyrchol atebol iddo. Clywsom fod angen mwy o gymorth ac anogaeth i glercod ymgymryd â chymwysterau proffesiynol.

## Rôl clercod

**86.** Y Clerc yw'r Swyddog Priodol ar gyfer y cyngor, felly mae ganddo ddyletswydd statudol i gyflawni'r holl swyddogaethau, yn enwedig cynghori, drafftio, cyflwyno a dyroddi hysbysiadau sy'n ofynnol gan Swyddog Priodol awdurdod lleol yn ôl y gyfraith. Y Clerc hefyd, fel rheol, yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (RFO), ac mae'n gyfrifol am weinyddiaeth a chofnodion ariannol y cyngor. Dywed SLCC fod dyletswyddau craidd clerc yn cynnwys:

- Cynghori'r cyngor ar faterion cyfreithiol;
- Gweinyddu cyllid y cyngor;
- Trefnu gweithdrefnau'r cyngor;
- Arwain y cyngor wrth iddo ymgysylltu â'i drigolion;
- Trafod gyda sefydliadau eraill;
- Gweithredu penderfyniadau'r cyngor;
- Rheoli prosiectau'r cyngor.

**87.** Mae disgwyl i Glercod gael eu talu (fel isafswm) yn unol â chytundeb cenedlaethol (argymhellion y cytunwyd arnynt gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC) a Chymdeithas Clercod Cyngor Lleol (SLCC)). Ni ellir talu cynghorwyr sy'n gweithredu fel clercod dros dro (pan fo swydd wag, er enghraifft).

**88.** Trafodwyd rôl y clerc yn ein grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr y sector. Disgrifiodd un cyfranogwr y berthynas rhwng y cyngor a'r clerc fel un rhyfedd, o ran bod y clerc yno i gynghori ac arwain ond hefyd i gael cyfarwyddiadau gan y cyngor. Dywedodd un cyfranogwr fod llawer o Gynghorwyr yn meddwl eu bod yn gwybod popeth ac na fyddant yn gwrando ar gyngor. Dywedodd un arall fod cynghorwyr yn gweld y clerc fel eu hysgrifennydd. Dadleuwyd bod rôl clerc yn un gymhleth nad yw bob amser yn cael ei gwerthfawrogi gan aelodau'r cyngor.

**89.** Wrth sôn am eu profiad o weithio gyda chlercod, dywedodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau:

> *"Given that coordination of council activity and implementation of decisions made 'hinge on the clerk,' we have concerns about the lack of time and capacity of clerks. In some cases, community groups have found town and community council clerks very helpful and supportive whereas others think the working relationship could be better. Challenges in working with clerks were largely attributed to the workload, and the 'enormous pressure to enact decisions'."*[62]

## Cymwysterau ar gyfer Clercod

**90.** Nid oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd, ac eithrio at y diben o ddod yn gyngor cymuned cymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, i glerc cyngor cymuned feddu ar gymhwyster proffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o gyllid dros y blynyddoedd diwethaf drwy gynllun bwrsariaeth, i dalu costau hyd at 50 o glercod sy'n dymuno cyflawni'r cymhwyster Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA). Mae ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod hawliadau a wnaed bob blwyddyn wedi bod yn sylweddol is na'r swm sydd ar gael – yn 2023-24, dim ond £13,338 a hawliwyd er bod £72,000 ar gael.[63]

**91.** Clywsom gefnogaeth i hybu nifer y clercod sydd â chymwysterau. Nododd SLCC, er nad yw cymhwyster yn hanfodol ar gyfer y swydd, ei fod yn ddymunol ac "fe ddylai fe gael ei annog", gan ychwanegu y dylai staff gael:

[62] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 21 Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
[63] Y Pwyllgor Llywodraeth leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Papur 1, Tabl 2

> *"hyfforddiant o'r cychwyn cyntaf, ac mae'r gymdeithas yn darparu lot fawr o gyfleoedd hyfforddiant i'n haelodau."*[64]

**92.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym y byddai'n ddymunol gweld nifer y clercod â chymwysterau ffurfiol yn cynyddu, ond rhybuddiodd yn erbyn mynd yn rhy bell a'i wneud yn ofyniad. Nododd fod hyn yn arwain at risg y bydd clercod yn gyndyn o ymuno â'r proffesiwn drwy ei wneud yn rhy feichus.[65] Aeth ymlaen i ddweud bod proffesiynoli'r system yn beth da a bod nifer fwy o glercod sydd â chymwysterau proffesiynol ffurfiol yn elfen bwysig o hynny, ond cyfeiriodd hefyd at hyfforddiant arall sydd ar gael i glercod sydd â'r nod o'u galluogi i gyflawni rôl gwbl briodol a phroffesiynol heb ennill y cymhwyster ei hun.[66]

**93.** Pan ofynnwyd faint o glercod oedd wedi cwblhau'r cymhwyster CiLCA, y nododd Un Llais Cymru sy'n gallu cymryd 12-15 mis i'w gwblhau, dywedodd SLCC fod 76 wedi cwblhau'r cymhwyster cyn 2021, a bod 35 wedi cofrestru ar ôl 2021. Gwnaeth nodi hefyd bod 22 clerc yn astudio ar gyfer y cymhwyster CiLCA ar hyn o bryd.[67] Clywsom gan Un Llais Cymru fod nifer y cofrestriadau ar gyfer CiLCA yn cynyddu, neu'n aros yn gyson, a'i fod yn croesawu'r fwrsariaeth. Er hynny, ychwanegodd nad cael CiLCA yw'r unig nod, a bod llwybrau hyfforddi eraill, a chyfeiriodd at hyfforddiant arall a ddarperir gan SLCC, gan gynnwys hyfforddiant ariannol.[68]

**94.** Fodd bynnag, gyda llawer o glercod yn gweithio dim ond ychydig oriau'r wythnos i'w cyngor, credai Un Llais Cymru y byddai llawer o glercod yn gweld ei fod yn mynd y tu hwnt i'w rôl fel clerc cyngor bach. Cafodd hyn ei gyfleu i ni gan Gyngor Cymuned Kinnerton Uchaf:

> *"not all Clerk's have the capacity to undertake and complete the Certificate in Local Council Administration qualification."*[69]

**95.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y fwrsariaeth sydd ar gael, gan nodi y gallai tua 75 o glercod newydd fod wedi cael eu hyfforddi bob blwyddyn, a'i bod yn siomedig iawn nad yw pawb yn manteisio ar hynny. Dywedodd wrthym fod

[64] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 117
[65] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 65
[66] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 74
[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 185
[68] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 297
[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 51 Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf

swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Clercod Cyngor Lleol i fynd ati i hyrwyddo'r cynllun.[70]

**Ein barn ni**

**96.** Rydym yn cydnabod y cymorth cyffredinol gan y sector i glercod sy'n ennill cymwysterau ffurfiol ac yn cytuno y byddai hyn yn gam tuag at broffesiynoli'r rôl. Clywsom yn benodol am y cymhwyster CiLCA ac rydym yn croesawu'r fwrsariaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost dilyn y cwrs. Mae'n siomedig nad yw swm llawn y fwrsariaeth erioed wedi'i hawlio mewn unrhyw flwyddyn a bod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf wedi gweld gostyngiadau yn y symiau a hawliwyd.

**97.** Gwerthfawrogwn fod astudio ar gyfer cymhwyster ffurfiol yn cymryd llawer o amser ac y bydd ymrwymiad o'r fath yn rhwystr i rai, yn enwedig y clercod hynny sy'n gweithio'n rhan-amser na fyddent yn gallu ymgymryd â'r hyfforddiant yn ystod eu horiau gwaith. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai pennu y byddai angen i glercod fod â chymhwyster ffurfiol eisoes, neu fod yn gweithio tuag ato, yn debygol o arwain at ostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad ennill cymhwyster clercio ffurfiol yw'r unig opsiwn sydd ar gael. Yn ogystal â'r CiLCA neu gymwysterau cyfatebol, mae modiwlau hyfforddi priodol eraill y gallai clercod elwa arnynt, megis hyfforddiant ariannol. O ystyried ehangder cyfrifoldebau a dyletswyddau clerc, credwn y byddent yn elwa ar ymgymryd â'r hyfforddiant a gynigir.

**Casgliad 1.** Hoffem i Lywodraeth Cymru wneud mwy, ar y cyd â'r sector, i godi ymwybyddiaeth o'r fwrsariaeth ac annog mwy o glercod i astudio ar ei chyfer. Gallai'r posibilrwydd o dalu clercod am yr amser hyfforddi ychwanegol fod yn opsiwn i'w archwilio.

## Cyfuno adnoddau clercio

**98.** Cafwyd galwadau gan y rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws am fwy o adnoddau, amddiffyniad a chymorth i glercod. Dywedodd rhai cyfranogwyr yr hoffent weld clercod yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol er mwyn cael eu hamddiffyn gan yr awdurdod lleol. Dywedodd y cyfranogwyr nad oeddent yn teimlo'n gymwys i ymdrin â materion AD, a'u bod yn aml yn cael eu hunain yn ymdrin â phroblemau yn hytrach na chyflawni eu rolau clercio. Fodd bynnag,

[70] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 148-149

dywedodd cyfranogwr arall y byddai gwneud hyn yn golygu y byddai'r sector yn colli ei statws corfforaethol annibynnol.

**99.** Buom yn trafod y potensial i glercod gael eu cyflogi gan awdurdod lleol neu'r potensial i gyfuno adnoddau clercio ar ryw ffurf gyda nifer o dystion. Teimlai rhai cyfranogwyr yn ein grŵp ffocws nad oedd clercod yn cael digon o gymorth gan glercod eraill ar hyn o bryd. Dywedodd un cyfranogwr na chafodd unrhyw gyfnod trosglwyddo pan ddechreuodd y rôl, ac roedd eraill yn teimlo'n rhwystredig nad yw help a gwybodaeth ar gael yn hawdd ar hyn o bryd.

**100.** Cyfeiriodd un cyfranogwr at grŵp Facebook ar gyfer clercod a dywedodd fod pobl yn postio ynddo bob dydd am fwlio. Disgrifiodd y cyfranogwr gymuned glos o glercod ond teimlai'n bryderus am y rhai heb y rhwydwaith hwnnw. Cafwyd galwadau i Un Llais Cymru weithredu ardal gyngor ar-lein ar ffurf fforwm gyda chymorth ariannol.

**101.** Dywedodd Cadeirydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau wrthym ei fod yn bendant o'r farn y dylai cronfa neu gynulliad o glercod gael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol. Roedd ei farn wedi'i llywio gan ei brofiad o ymdrin ag anghydfodau.[71]

**102.** Nododd CLlLC fod y syniad o gronfa o glercod yn werth ei ystyried, ond cwestiynodd a fyddai hynny'n newid y berthynas yn sylfaenol rhwng cynghorau tref a chymuned a phrif awdurdodau.[72]

**103.** Roedd SLCC yn gadarn eu barn yn erbyn yr awgrym, gan ddweud wrthym:

> *"Y peth i'w gofio gyda chlercod yw eu bod nhw, mewn ffordd, yn brif weithredwyr y cyngor cymuned neu'r cyngor tref, felly dŷn nhw ddim yna jest i gynnig gwasanaethau gweinyddol mewn rhyw fath o pool."*[73]

**104.** Aethant ymlaen i ddweud:

> *"it's inappropriate because clerks aren't simply providing a secretarial service. It characterises the clerk in a slightly pejorative way. Clerks are the proper officers and the responsible financial officers as well. Their autonomy and independence, and their responsibility to the council as the*

[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 174
[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 190
[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 132

*employer, are paramount. To pool clerks weakens that bond and it misrepresents what the role is about and how it operates."*[74]

**105.** Dywedodd SLCC wrthym hefyd fod gwasanaethau locwm ar gael i fynd i'r afael â bylchau pan fydd swyddi gwag neu absenoldebau staff yn codi a bod ganddynt fentoriaid a fydd yno i gefnogi a chynghori clercod, gan ychwanegu:

*"we have these things in place, and we have branch meetings where clerks meet up to share experiences and to draw from each other, really. So, there are mechanisms in place for supporting, and they don't have to operate in silos, really, and they can use those services that are available to them."*[75]

**106.** Roedd Un Llais Cymru hefyd yn erbyn yr awgrym, gan nodi:

*"a chief officer of a body corporate, and have that person employed by somebody outside that body corporate, it would be difficult to deal with potential conflicts of interest when it comes to transferring place based services etc, it would be difficult deal with disciplinary issues, it would be difficult to maintain a little bit of clear water between a community council and the primary authority."*[76]

**107.** Roedd Cymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru yn credu nad oedd dyfodol i'r awgrym a bod rhaid i'r clerc aros yn gwbl annibynnol ac yn weithiwr i'r cyngor tref.[77]

**108.** Cyfeiriwyd at enghraifft yng Ngwynedd, lle mae Partneriaeth Ogwen, menter gymdeithasol, yn darparu gwasanaethau clercio ar gyfer tri chyngor cymuned o fewn ei hardal. Mae'n ymddangos o wefan y Bartneriaeth fod un clerc yn gwasanaethu dau gyngor cymuned, ac un arall yn gwasanaethu un. Pan ymwelodd yr Aelodau â Phartneriaeth Ogwen fel rhan o'n gwaith ar asedau cymunedol, esboniwyd bod y cynghorau cymuned yn talu'r Bartneriaeth am y gwasanaeth.

**109.** Yn ôl SLCC:

---

[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 159
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 163
[76] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 315
[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 318

> *"Dwi'n gwybod ei fod e wedi gweithio'n dda iawn yn sefyllfa Partneriaeth Ogwen, ond dyw hwnna ddim i ddweud y byddai e'n gweithio cystal ar draws Cymru."*[78]

## Ein barn ni

**110.** Roedd gennym ddiddordeb yn yr awgrym o gael cronfa bosibl o glercod, a gyflogir gan brif awdurdod o bosibl, ac archwiliwyd hyn ymhellach yn ein sesiynau tystiolaeth. Rydym yn cydnabod bod tystion wedi codi manteision ac anfanteision ynghylch yr awgrym. Rydym yn deall y safbwynt y gallai clerc nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan gyngor wneud anghydfodau'n haws i'w trin. Yn ogystal, byddai bod yn rhan o sefydliad mwy megis prif awdurdod yn golygu bod clercod yn gallu cael mynediad uniongyrchol at wasanaethau cymorth ehangach megis gwasanaethau cyfreithiol ac AD a gallai gynnig mwy o wydnwch ar adegau o lwyth gwaith trwm neu absenoldeb staff.

**111.** Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth gan y sector yn glir, sef y dylai clercod gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan eu cyngor cymuned, ac rydym yn ymwybodol iawn o hynny. Rydym yn cydnabod mai eu cyrff statudol eu hunain yw cynghorau a bod ganddynt eu hymreolaeth unigol eu hunain, ond byddem yn annog cynghorau i archwilio cyfleoedd i rannu adnoddau clercod yn lleol. Yn ein barn ni, mae'n werth i sefydliad megis Un llais Cymru neu SLCC gadw rhestr o glercod cymwys, os nad oes rhestr o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd, fel ffynhonnell i glercod newydd neu rai nad ydynt wedi cymhwyso gael cyngor, arweiniad a chymorth yn eu hardal leol.

**112.** Rydym yn ymwybodol o fodelau llwyddiannus eraill sy'n gweithio'n dda yng Nghymru, megis Partneriaeth Ogwen – menter gymdeithasol yng Ngwynedd - lle mae staff yn darparu cymorth clercio i dri chyngor cymuned lleol. Rydym yn cydnabod bod y trefniant hwn wedi bod ar waith ers peth amser a'i fod yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda yn lleol. Mae'r dull hwn yn dangos bod opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau clercio y tu hwnt i'r sefyllfa bresennol, a bod modd archwilio ac uwchraddio opsiynau o'r fath.

---

[78] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 132

# 4. Rhesymoli cynghorau cymuned

Roedd adroddiad y panel annibynnol yn 2018 yn argymell y dylai pob ardal yng Nghymru gael ei chynrychioli gan gyngor cymuned. Fodd bynnag, yn yr etholiad diweddaraf yn 2022, dim ond ar gyfer 22 y cant o'r 7,883 o seddi cynghorau cymuned a thref y cafwyd etholiad. Roedd 62 y cant o'r seddi yn ddiwrthwynebiad, felly ni chynhaliwyd etholiad, ac roedd 16 y cant o'r seddi heb eu llenwi.

**113.** Clywsom farn gymysg ynghylch yr angen i resymoli nifer y cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

**114.** Roedd Cymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru o'r farn y bydd hi'n anodd iawn darparu gwasanaethau'n lleol oni bai bod cynghorau'n tyfu.[79] Aethant ymlaen i ddweud wrthym fod maint yn beth pwysig iawn os gofynnir iddynt wneud cymaint mwy o ran cymryd rheolaeth dros asedau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.[80]

**115.** Dywedodd Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol y Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau wrthym ei fod o'r farn bod lle i resymoli rhai cynghorau tref a chymuned gan eu bod yn ei chael hi'n anodd denu aelodau a chymorth priodol, ac yn ei chael hi'n anodd ennyn diddordeb yn yr ardal. Awgrymodd y gallai rhyw fath o adolygiad a rhesymoli gynorthwyo gyda hyn.[81]

**116.** Fodd bynnag, roedd Un Llais Cymru yn gadarn o'r farn na fyddai rhesymoli cynghorau drwy eu huno yn gam i'r cyfeiriad cywir.[82] Gwnaethant ddweud wrthym mai eu safbwynt nhw yw parchu sofraniaeth y cynghorau unigol, a'u bod am i

[79] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 47 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 223
[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 142
[82] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 22 Un Llais Cymru

hynny barhau. Pwysleisiodd Un Llais Cymru hefyd eu cefnogaeth i sefydlu cyngor cymuned ym mhob cymuned yng Nghymru.[83] Gwnaethant nodi:

> *"The unintended consequences of such a move towards mergers would be the reduction in the numbers of community and town councillor's and thereby creating a net reduction in numbers of those providing resource to civic society in Wales…not to mention the increased democratic deficit of community and town councillors taking responsibility for ever larger electorates quite possibly beyond existing community boundaries."*[84]

**117.** Galwodd Un Llais Cymru am strategaeth glir a gweledigaeth glir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â diben y sector hwn, gan ychwanegu:

> *"How can you measure how effective we are if there is no clear plan, no clear strategy, no clear vision from the Government? It's not One Voice Wales's job to provide that vision, that Wales vision about the sector, and it's not individual councils', and it's not the principal councils'; it is the job of Government. And there is no clear vision, no clear strategy, and in that scenario, individual perceptions will rule and you will get inconsistencies across all of Wales."*[85]

**118.** Daeth y grŵp gorchwyl a gorffen iechyd democrataidd i'r casgliad y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau maint ac y byddai hyn yn llywio dull cenedlaethol gyson o gynnal adolygiadau cymunedol dan arweiniad prif gynghorau.

**119.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet yr angen i gydbwyso'r lefel gywir o gynrychiolaeth i ddeall y materion a'r anghenion lleol hynny yn erbyn capasiti a gallu'r sector, a chyfeiriodd at adolygiadau rheolaidd ynghylch niferoedd cynghorau cymuned. Cyfeiriodd swyddog at gasgliad y grŵp gorchwyl a gorffen, gan dderbyn ei fod yn rhywbeth y mae angen edrych arno yn ôl pob tebyg ac mai'r adolygiadau ffiniau fyddai'r mecanwaith ar gyfer gwneud hynny.[86]

[83] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 231
[84] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 22 Un Llais Cymru
[85] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 216
[86] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 63-64

## Clystyru cynghorau

**120.** Un dull posibl a nodwyd i'w ystyried ymhellach oedd 'clystyru', lle mae cynghorau cymuned yn cydweithio'n agos, yn rhannu adnoddau, yn cydweithio ar draws cymunedau ac yn contractio gwasanaethau ar y cyd.

**121.** Roedd y sector yn agored i'r syniad o glystyrau, ond nodwyd bod angen datblygu'r cysyniad ymhellach. Dywedodd SLCC y byddai clystyru'n fwy costeffeithiol o ran cyllid ac ati, ac yn galluogi gwell trefniadau cydweithio rhwng cynghorau, megis trefniadau contractio ar y cyd. Fodd bynnag, roedd SLCC hefyd yn cefnogi cadw'r nifer presennol o gynghorwyr ar gyfer y cymunedau hynny er mwyn osgoi'r risg bosibl o gynyddu diffyg democrataidd lleol.[87]

**122.** Roedd peth o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom yn cefnogi'r achos dros edrych ar glystyrau. Nododd Cyngor Cymuned Tawe Uchaf y byddai clystyrau o gynghorau bach yn strategaeth fwy effeithiol os oes rhaid newid, a chyfeiriodd Cyngor Tref Trefaldwyn at fodel penodol yn ei ardal – Clwstwr Gwledig Bro Maldwyn o Gynghorau, sydd â'r nod o hwyluso trefniadau gweithio agosach a rhannu profiad. Cafwyd cefnogaeth hefyd i glystyru cynghorau llai yn hytrach na'u diddymu gan rai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws.

**123.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"there have been examples where they [community councils] have come together and clustered… From a purchasing and contracting perspective, I think it can work, but it's got to be a locally led decision. We know that several clerks work across several community councils as well, but it isn't a huge leap, really, then to think that they could pool those resources. Again, I've given one example, but I'm not aware of many others, and I think that's something where we could look with interest at what's happening in Gwynedd."*[88]

## Ein barn ni

**124.** Nodwn nad oedd unrhyw awydd cryf gan randdeiliaid i resymoli nifer y cynghorau tref a chymuned, ond ni allwn anwybyddu'r ffaith mai dim ond 22 y cant o seddi a ymladdwyd yn yr etholiadau lleol diwethaf. Mae hyn yn awgrymu bod yna ymdeimlad o ddifaterwch neu ymddieithrio â'r ffurf fwyaf lleol o

---

[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 127
[88] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 72

lywodraeth mewn llawer o ardaloedd. Mae hyn yn gwneud i ni gwestiynu a yw'r strwythur presennol yn briodol.

**125.** Rydym yn ymwybodol iawn bod maint cynghorau cymuned yn amrywio'n sylweddol. Er ein bod yn cydnabod bod llawer o gynghorau llai ledled Cymru yn gwneud gwaith gwych o fewn eu cymunedau, wrth i ddisgwyliadau ar gynghorau cymuned i gynnal gwasanaethau lleol ychwanegol gynyddu, rydym yn meddwl tybed a allai cynghorau cyfun, mewn rhai ardaloedd, ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflawni effeithiol gyda mwy o adnoddau ac arbenigedd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y dystiolaeth a glywsom yn amrywio, felly nid ydym yn cynnig barn bendant ar hyn. Credwn y byddai hyn yn elwa ar ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cymru a'r sector.

**126.** Nodwn fod y grŵp gorchwyl a gorffen ar iechyd democrataidd cynghorau cymuned a thref wedi dod i'r casgliad y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau maint ac y byddai hyn yn llywio dull cenedlaethol gyson o gynnal adolygiadau cymunedol dan arweiniad prif gynghorau.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chorff perthnasol, megis Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i gynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau maint er mwyn sicrhau dull cenedlaethol gyson o gynnal adolygiadau cymunedol dan arweiniad prif gynghorau.

**127.** Nodwn fod tystiolaeth y sector yn dangos parodrwydd i dderbyn y potensial i archwilio cyfleoedd i gynghorau glystyru, ac mae hynny i'w groesawu. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ymgysylltu â'r sector i archwilio cyfleoedd ar gyfer clystyru ac i annog rhannu arferion da.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector cynghorau tref a chymuned i archwilio mwy o gyfleoedd ar gyfer clystyru ac i annog rhannu arferion da.

# 5. Y berthynas rhwng Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned

Roedd cynrychiolwyr o'r sector cynghorau tref a chymuned yn glir eu barn fod y berthynas rhwng y sector a'r prif awdurdodau yn anghyson.

**128.** Yn 2002, nododd adroddiad Prifysgol Aberystwyth ar Rôl, Swyddogaethau a Photensial Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y Dyfodol ('Adroddiad Aberystwyth') mai un o amcanion bras ei hargymhellion oedd ffurfioli'r berthynas rhwng cynghorau cymuned a thref a chyrff eraill, gan gynnwys prif gynghorau a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd. Mae'n ymddangos, dros 20 mlynedd yn ddiweddarach, bod gwaith o'r fath yn parhau.

**129.** Dywedodd Cwmpas wrthym am ymchwil yr oeddent wedi'i chynnal ar gyfer un awdurdod lleol, gan gynnwys elfen a oedd yn archwilio perthynas yr awdurdod â chynghorau tref a chymuned. Dangosodd yr ymchwil y gall maint cyngor cymuned effeithio ar y berthynas. Clywsom y canlynol:

> *"for larger town and community councils, they said that the relationship they had with the local authority was good and consistently good, but the smaller town and community councils said that, where there were good, positive personal relationships, the relationship was fine, but, otherwise, they felt ignored, seen as a hassle, a top-down approach."*[89]

**130.** Clywsom gan SLCC dystiolaeth fod awdurdodau lleol yn gofyn mwy a mwy gan gynghorau tref a chymuned, ac y gellid gwella'r berthynas rhwng cynghorau tref a chymuned a'u hawdurdodau lleol. Wrth nodi bod y berthynas yn anghyson, dywedodd SLCC wrthym y gall fod gwahaniaethau yn y berthynas â gwahanol adrannau o fewn yr un awdurdod.[90] Dywedodd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru er bod enghreifftiau da o berthynas waith dda gydag awdurdodau lleol, roedd y berthynas yn un wael ar y cyfan. Nid oedd SLCC

[89] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 257
[90] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 99

yn cytuno bod y berthynas yn wael ar y cyfan, ond roeddent yn cytuno bod lle i wella i raddau amrywiol gyda phob awdurdod.[91]

**131.** Nododd Un Llais Cymru fod llawer o gynghorau cymuned yn rhan o siarteri gyda'u prif gynghorau ond, er mai nod y rhain yw diffinio a gwella'r berthynas bresennol rhwng gwahanol haenau llywodraeth leol, roeddent yn teimlo nad yw sawl agwedd ar y siarter yn cael eu dilyn.[92] Disgrifiodd SLCC ddarlun cymysg ledled Cymru,[93] a bod rhai siarteri'n llwyddiant tra bod eraill yn mynd yn angof i raddau helaeth.

**132.** Esboniodd Un Llais Cymru fod angen diweddaru'r siarter enghreifftiol, a ddyluniwyd yn 2008. Roeddent yn teimlo bod cynnwys y model yn rhy feichus a bod angen ei ddiwygio yn ôl pob tebyg.[94]

**133.** Roedd ymdeimlad cryf o rwystredigaeth ymhlith cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws ynghylch y berthynas rhwng y sector a phrif awdurdodau. Mynegodd y cyfranogwyr bryder bod eu barn yn aml yn cael ei hanwybyddu gan awdurdodau lleol. Nodwyd materion cynllunio fel problem benodol. Nodwyd y gallai'r diystyrwch a ddangosir i'r sector gan rai awdurdodau lleol fod yn rhwystr i recriwtio pobl newydd i ddod yn gynghorwyr lleol.

**134.** Roedd Un Llais Cymru yn derbyn bod y darlun presennol yn dal i fod yn un cymysg i raddau, ond gwnaethant ddweud wrthym fod llawer mwy o gydweithio wedi bod rhwng y ddwy haen o lywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethant ychwanegu y bu mwy o gydweithio rhwng y sectorau mewn ymateb i Covid, sydd wedi arwain at berthynas waith agosach[95], a gwnaethant gyfeirio at gydweithrediad mewn ymateb i'r llifogydd diweddar ym Mhontypridd.

**135.** Cyfeiriodd Un Llais Cymru a CLlLC at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y sefydliadau, sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i hyrwyddo democratiaeth leol.[96] Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ddechrau yn 2013 a lansiwyd fersiwn ddiwygiedig ym mis Hydref 2024.

**136.** Cydnabu CLlLC fod perthnasoedd yn amrywio'n fawr ledled Cymru, gan nodi y gallai prif gynghorau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol llai ei chael yn haws meithrin perthynas â chynghorau cymuned gan fod llai ohonynt. Dywedodd y

[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 106
[92] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 22 Un Llais Cymru
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 100
[94] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 215
[95] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 207-209
[96] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 02 CLlLC a CTC 22 Un Llais Cymru

Cynghorydd Anthony Hunt wrthym fod enghreifftiau lle mae'r berthynas wedi gweithio'n dda a bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn ffordd o geisio lledaenu'r math hwnnw o arfer orau. Roedd yn cydnabod, fodd bynnag, fod angen i bobl ar y ddwy lefel gydweithio er mwyn meithrin perthynas.[97]

**137.** Teimlai CLlLC ei bod yn anodd cael dull cyson o feithrin perthynas, ac y gallai cynghorau cymuned mwy o faint fod â mwy o adnoddau i feithrin y berthynas honno. Efallai y bydd gan awdurdodau lleol eraill niferoedd sylweddol o gynghorau cymuned yn eu hardal, gydag adnoddau a chyfleoedd cyfyngedig i neilltuo amser i feithrin y partneriaethau hynny.

**138.** Dywedodd SLCC, er mwyn i gynghorau lleol fod yn addas i'r diben, mae angen iddynt gael eu parchu a'u galluogi gan awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n effeithio ar eu cymunedau.

**139.** Soniodd sawl cyfranogwr yn ein grwpiau ffocws am y cyfrifoldebau ychwanegol a gyflawnir gan eu cynghorau, yn enwedig gweithredu gwasanaethau megis toiledau cyhoeddus neu feysydd parcio. Teimlai'r rhan fwyaf fod y sector mewn sefyllfa dda i redeg y gwasanaethau cymunedol hyn, ond nad oes gan bob un ohonynt yr adnoddau, y sgiliau na'r gallu i'w rheoli'n effeithiol. Nodwyd y dylai fod ymgynghori priodol gan awdurdodau lleol ac adnoddau i gefnogi trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau – gan gynnwys cymorth gan swyddogion. Mynegodd Cymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru farn debyg, gan ddweud bod angen rhag-rybuddio'r sector ynghylch trosglwyddo gwasanaethau, yn hytrach na gorfod ysgwyddo'r cyfan gyda thri mis yn unig o rybudd.[98]

**140.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai tasg i'r cynghorau cymuned a phrif gynghorau yw datblygu'r berthynas gynaliadwy honno rhyngddynt, ond cydnabu fod gan Lywodraeth Cymru rôl o ran darparu fframwaith ar gyfer hynny ac annog cynghorau i ddefnyddio'r fframwaith hwnnw. Ychwanegodd ei bod yn falch bod CLlLC ac Un Llais Cymru wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth i gydweithio'n agosach:

> *"It's obviously a very encouraging sign of that commitment to partnership and collaboration and support for both organisations."*[99]

---

[97] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 127
[98] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 204
[99] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 60-61

## Ein barn ni

**141.** Rydym yn cydnabod bod prif gynghorau a chynghorau cymuned yn gyrff statudol, a bod gan y ddau eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain. Fodd bynnag, o ystyried bod y ddwy haen o lywodraeth leol yn ymroi i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eu cymunedau lleol, teimlwn fod cydweithio effeithiol er lles gorau pawb yn yr ardal. Mae'n siomedig clywed bod y sector cynghorau cymuned yn teimlo nad yw eu llais yn cael ei glywed neu ei fod yn cael ei anwybyddu'n aml pan fydd prif gynghorau'n gwneud penderfyniadau am eu cymunedau. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen i brif gynghorau weithiau wneud penderfyniadau na fydd cymunedau lleol yn cytuno â nhw o bosibl, ond gallai cyfathrebu gwell a pherthynas agosach rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol fod o gymorth wrth wneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd.

**142.** Rydym yn croesawu diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CLlLC ac Un Llais Cymru ac yn gobeithio y bydd yn gatalydd i ddod â mwy o gysondeb yn y berthynas rhwng y ddwy haen o lywodraeth. Mae'r arferion da a glywsom am gynghorau'n cydweithio yn ystod y cyfnod Covid ac mewn ymateb i lifogydd diweddar yn dangos sut y gall cydweithio fod yn effeithiol. Nodwn y farn a fynegwyd gan Un Llais Cymru, sef y dylid adolygu a diwygio'r siarter enghreifftiol. Rydym yn croesawu hyn a byddem yn annog cynnal adolygiad os bydd yn helpu i sicrhau cydweithio gwell a mwy cyson. Bydd yn bwysig cael ymrwymiad gan y ddwy haen o lywodraeth ac arweinyddiaeth gan gyrff cynrychiadol i sicrhau bod pob cyngor yn cymryd rhan.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddwy haen o lywodraeth leol i sicrhau y gellir cynnal adolygiad o'r siarter enghreifftiol rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned.

# 6. Digidol

Ym mis Mawrth 2023, adroddodd Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol ar barodrwydd digidol cynghorau cymuned a thref a gwnaeth gyfres o argymhellion. Clywsom am rai materion sylfaenol gyda thechnoleg yn y sector, gan gynnwys sut y mae defnyddio digidol ar gyfer datblygu gwasanaethau yn ei ddyddiau cynnar o hyd.

**143.** Nododd Un Llais Cymru fod darparu gwasanaethau'n ddigidol yn her i lawer o gynghorau cymuned a thref. Nododd hefyd fod gallu o fewn y sector i ddarparu hyfforddiant a datblygiad mewn tirwedd ddigidol sy'n newid yn anghyson.

**144.** Clywsom fod rhai cynghorau cymuned yn cael trafferth gyda rhai pethau sylfaenol, megis cysylltiad Wi-Fi, seilwaith hybrid sylfaenol, ac mae rhai yn dal i fod heb gyfleuster gwefan. Dywedodd Un Llais Cymru nad yw 30 y cant o gynghorau'n darparu e-bost cyngor penodol ar gyfer eu staff, ac nad yw 56 y cant yn darparu gwasanaethau e-bost i'w cynghorwyr. Nodwyd hefyd, mewn 64 y cant o gynghorau cymuned, fod rhai staff a chynghorwyr yn defnyddio cyfeiriadau e-bost personol ar gyfer busnes y cyngor. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod hyn yn aml yn arwain at golli gwybodaeth pan fydd staff yn newid a'i fod hefyd yn cynyddu'r risg o golled i bwrs y wlad. Dywedodd Un Llais Cymru wrthym fod rhai gwelliannau wedi bod, gyda 90 y cant o gynghorau bellach yn darparu offer megis gliniadur i'r clerc.[100]

**145.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw hefyd at y ffaith y byddai gweithdrefnau archwilio'n llawer symlach pe gallai pob cyngor fod â gwefan weithredol a oedd yn cael ei chynnal yn dda, ond cydnabu'r angen i fod yn realistig ynghylch gallu rhai cynghorau i gydymffurfio â hynny.[101]

**146.** Dywedodd Cwmpas wrthym am y cymorth y maent wedi'i ddarparu i'r sector drwy eu cynllun benthyca dyfeisiau digidol:

---

[100] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 339-340
[101] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 110

*"where the issue of getting online isn't lack of skills, it's just having access to the devices that you need to get online, we have the loan scheme where people can go into a local community and use those devices and develop their skills and other activities."*[102]

**147.** Gwnaeth cyfranogwyr y grwpiau ffocws gyfleu profiadau gwahanol o ran gallu gweithio mewn modd hybrid. Roedd gan rai cynghorau y dechnoleg a'r cyfleusterau angenrheidiol i gynnal cyfarfodydd hybrid, ond nid oes gan rai cynghorau y cyfleusterau yn eu mannau cyfarfod, sy'n golygu bod angen i'r holl gyfranogwyr ymuno â chyfarfodydd o bell. Roedd cefnogaeth ar gyfer presenoldeb rhithwir, gyda chyfranogwyr yn cytuno ei fod yn cynyddu cyfleoedd i bobl â chyfrifoldebau eraill ymuno â chyfarfodydd. Roedd profiad o ddarparu offer hefyd yn amrywio, gyda rhai cynghorwyr wedi cael llechi, tra bod eraill yn galw am i'r cynnig hwn fod ar gael i bawb. Roedd rhai yn ystyried bod cost darpariaeth i bawb yn afresymol.

**148.** Dywedodd Cwmpas wrthym am waith yr oeddent yn ei wneud drwy eu prosiect Cymunedau Digidol Cymru gydag Un Llais Cymru. Clywsom eu bod wedi cyflwyno saith sesiwn yn 2024 a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, megis diogelwch ar-lein, ymgysylltu â'r gymuned, dod yn hyrwyddwr digidol, a bod 77 o fynychwyr o 50 o gynghorau wedi cymryd rhan. Wrth groesawu'r ymgysylltu, roeddent yn cydnabod bod llawer mwy o gynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru a allai elwa ar hynny.[103]

**149.** Nododd Un Llais Cymru eu bod wedi derbyn dwy gyfran o gyllid o £150,000 y flwyddyn ar gyfer trawsnewid digidol, a'u bod yn croesawu'r cyllid yn fawr, er ei fod braidd yn hwyr. Gwnaethant ddweud bod hyn i gydnabod yr heriau ynghylch capasiti digidol a gallu o fewn y sector. Clywsom fod y cyllid wedi'i ddefnyddio i wneud gwaith ymchwil ac y bydd gan y sefydliad wefan newydd a fydd yn dod yn ystorfa ar gyfer llawer o wybodaeth newydd. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o ddogfennau canllaw pwrpasol i'r sector, a fydd yn galluogi clercod a chynghorwyr i reoli rhaglenni digidol yn fwy effeithlon. Gwnaethant ddweud wrthym, fel rhan o'r rhaglen, fod 120 o asesiadau aeddfedrwydd digidol o gynghorau unigol wedi'u cynnal sydd wedi rhoi darlun cyfoethog o'r materion sy'n wynebu'r sector wrth symud ymlaen.[104]

[102] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 301
[103] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 295
[104] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 334-335

**150.** Un argymhelliad gan Un Llais Cymru oedd bod angen pecyn TG safonol ar gyfer y sector a fyddai'n cynnwys cyfarfodydd aml-leoliad, cyllid craidd a gweithgarwch llywodraethu. Roeddent hefyd yn argymell y dylai fod desg wasanaeth ganolog sy'n darparu cymorth TG i'r sector, gan leihau costau i gynghorau cymuned.[105] Nododd Cyngor Tref Caerfyrddin ei fod yn ffodus bod ganddo gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol ar gyfer cymorth TG, gan ychwanegu:

> *"Gellid gwella cwmpas cynghorau i weithredu'n ddigidol drwy ddarparu cymorth, efallai yn seiliedig ar gontractau yn ôl y gofyn yn rhanbarthau Cymru neu CLG ag awdurdodau lleol."*[106]

**151.** Mae Cyngor Tref Y Fenni wedi mabwysiadu dull gweithredu arall drwy dalu am gymorth technegol gan gwmni lleol oherwydd gan fod cyn lleied o staff, nid oes modd i arbenigwr TG penodol gael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y cyngor.[107]

**152.** Mynegodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws gefnogaeth gyffredinol i'r defnydd o dechnoleg, ond ategwyd hyn gan rybudd nad technoleg ddylai fod yr unig opsiwn. Nodwyd bod cysylltedd gwael mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru o hyd ac nad yw rhai pobl hŷn yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg. Ategwyd hyn gan Cwmpas a nododd er bod cyfraddau allgáu digidol yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, i lawr 7 y cant ar hyn o bryd, mae'r 7 y cant sy'n weddill yn wynebu heriau cynyddol wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus drwy beidio â bod ar-lein.

**153.** Aeth Cwmpas ymlaen i ddweud na ddylai rhoi gwybodaeth ar wefan gael ei ystyried yn ddigon, gan ychwanegu:

> *"It then moves on, I think, to questions about digital transformation and how to make these town and community councils use the technology that is available, in the best way possible, but in that people-first approach."*[108]

**154.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod llawer i'w wneud o hyd o ran cynyddu parodrwydd digidol y sector, a chyfeiriodd at y cyllid a ddarperir i Un Llais Cymru. Ni nododd a fyddai'r cyllid yn parhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at y cynllun gweithredu iechyd digidol a

[105] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 341
[106] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 04 Cyngor Tref Caerfyrddin
[107] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 05 Cyngor Tref y Fenni
[108] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 296-297

gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn dilyn adroddiad gan Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol, a nododd ei fod yn adlewyrchu'r ardaloedd lle ceir yr effaith fwyaf.[109]

## Ein barn ni

**155.** Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol gyhoeddi ei adroddiad ar barodrwydd digidol yn y sector, a bron i ddwy flynedd ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynllun gweithredu. Er gwaethaf mân welliannau, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod angen gwaith sylweddol i wella gallu digidol cynghorau tref a chymuned. Mae hefyd yn amlwg nid yn unig nad yw cynghorau cymuned mewn sefyllfa i fanteisio'n llawn ar 'ddigidol', mae cyfran sylweddol heb sicrhau'r ddarpariaeth TG fwyaf sylfaenol ar gyfer eu staff a'u cynghorwyr. Mae'r ffigurau a ddarparwyd ar nifer y cynghorau sydd heb ddarpariaeth e-bost ar gyfer eu staff a'u cynghorwyr yn drawiadol, ac mae angen gwelliannau brys. Mae'n annerbyniol bod busnes swyddogol y cyngor yn cael ei gynnal gan ddefnyddio e-bost personol. Mae hyn yn codi pryderon difrifol ynghylch cydymffurfiaeth â rheoliadau GDPR a diffyg trywydd archwilio pan fydd unigolion yn gadael eu swyddi.

**156.** Rydym hefyd yn pryderu bod rhai cynghorau'n cael eu hatal rhag cynnal eu cyfarfodydd mewn modd hybrid oherwydd diffyg seilwaith yn adeiladau eu cyfarfodydd. Clywsom fod hyn wedi arwain at rai cynghorau'n cynnal cyfarfodydd cwbl rithwir yn unig. Er ein bod yn cefnogi manteision bod cynghorwyr yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell, credwn y dylai hyn fod fel rhan o fformat hybrid fel y gallant ddewis drostynt eu hunain. Rydym yn pryderu y gall cyfarfodydd cwbl rithwir fod yn gymaint o rwystr i rai pobl ag y gall cyfarfodydd wyneb yn wyneb fod i eraill.

**157.** Rydym yn gwerthfawrogi na fydd gan gynghorau llai ddigon o arian i dalu costau offer a chymorth TG a nodwn y dystiolaeth gan Gyngor Tref Caerfyrddin fod ganddo gytundeb â'r awdurdod lleol sy'n darparu cymorth. Oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, credwn y dylai fod disgwyliad bod awdurdodau lleol yn darparu cymorth TG i gynghorau tref a chymuned drwy gytundebau lefel gwasanaeth. Rydym hefyd yn annog rhannu cyfleusterau addas i'w defnyddio gan gynghorau cymuned i gynnal cyfarfodydd hybrid.

[109] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 162

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cynllun gweithredu iechyd digidol cynghorau cymuned a thref a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC ac Un Llais Cymru i annog awdurdodau lleol i:

- ddarparu cymorth TG i gynghorau tref a chymuned drwy gytundebau lefel gwasanaeth, a
- rhannu cyfleusterau i'w defnyddio gan gynghorau tref a chymuned i gynnal cyfarfodydd hybrid.

# 7. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi cyngor cymuned sydd wedi bodloni amodau penodol i ddod yn gyngor cymuned cymwys at ddiben arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Rhaid i gyngor basio penderfyniad ei fod yn gyngor cymwys ym mhob cyfarfod blynyddol.

**158.** O dan Ddeddf 2021, y tri maen prawf y mae'n rhaid i gyngor cymuned eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yw:

i. Bod o leiaf ddau draean o gyfanswm nifer aelodau'r cyngor wedi'u datgan i'w hethol (gan gynnwys yn ddiwrthwynebiad), boed mewn etholiad cyffredin neu is-etholiad;

ii. Bod clerc y cyngor yn meddu ar y cyfryw gymhwyster neu ardystiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau; a

iii. Bod dwy farn ddiweddaraf Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon y cyngor yn ddiamod. Rhaid bod y diweddaraf wedi dod i law yn y 12 mis blaenorol.

**159.** Ni chawsom unrhyw ffigurau pendant ar gyfer nifer y cynghorau cymwys sydd wedi defnyddio'r pŵer hyd yma, er bod rhai tystion yn meddwl mai tua 30 oedd wedi gwneud hynny. Tynnodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau sylw at yr anawsterau y maent wedi'u profi wrth geisio pennu faint o gynghorau tref a chymuned sy'n cyrraedd y trothwy hwn ac yn meddu ar y pŵer hwn, gan ychwanegu:

> *"The lack of an easily identifiable directory of town and community councils possessing these powers and responsibilities is a gap in overall accountability and transparency of this tier of government."*[110]

[110] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 21 Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

## Meini prawf cymhwystra

**160.** Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r gallu i gynghorau cymuned ddefnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, er bod llawer wedi mynegi'r farn bod y meini prawf cymhwystra yn rhwystr i rai cynghorau. Nododd SLCC fod y meini prawf cymhwystra yn gyfyngol iawn, gan ddweud eu bod yn eithrio llawer o gynghorau sy'n gymwys ac yn cael eu rhedeg yn dda.[111]

**161.** Rhwystr penodol a nodwyd gan rai oedd y gofyniad yn Neddf 2021 i gynghorau cymwys ailddatgan eu cymhwystra yn flynyddol. Clywsom y gallai hyn fod yn heriol os ceir oedi yn ystod y broses archwilio, os bydd clerc cymwysedig yn gadael ei rôl neu os bydd cyngor yn colli aelodau etholedig yng nghanol y tymor ac aelodau cyfetholedig yn cymryd eu lle. Nododd SLCC nad oedd y gofyniad yn gymesur a'i fod yn faich gweinyddol, gan ddweud wrthym:

> *"Our view would be that it isn't what GPC allows you to do that is onerous. Indeed, it's a power that frees councils to be more responsive, entrepreneurial, to respect that community's wishes far more directly and quickly. The only notion of there being any administrative burden is in demonstrating annually that those conditions are met."*[112]

**162.** Tynnodd Un Llais Cymru sylw hefyd at yr heriau o ran arfer y pŵer, gan y gall y cyfnod ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer rhai cynlluniau gymryd mwy na blwyddyn, ac erbyn hynny byddent yn dod yn anghymwys i gael y pŵer pe bai amgylchiadau'r cyngor wedi newid mewn perthynas ag un o'r tri maen prawf. Gwnaethant ei ddisgrifio fel rhywbeth anneniadol braidd. Dywedodd un cynrychiolydd ei fod wedi cynghori ei gyngor cymuned ei hun i beidio â cheisio'r pŵer, er ei fod yn bodloni'r gofyniad yn y Ddeddf. Dywedodd wrthym na fyddai'n cynghori ei gyngor i geisio'r pŵer hyd nes y byddai'r cyfnod cymhwystra'n cael ei ymestyn i bum mlynedd.[113]

**163.** Cododd SLCC bryderon tebyg, gan nodi bod y gofyniad i basio penderfyniad yn flynyddol i barhau i fod yn gymwys yn faich gweinyddol, a gwnaethant awgrymu ei fod yn atal rhai pobl rhag mynd ati'n frwdfrydig i geisio'r pŵer.[114]

---

[111] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 33 Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol
[112] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 180 a 189
[113] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 322 a 324
[114] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 183

**164.** Tynnodd cynghorau unigol sylw at bryderon o'r fath yn eu tystiolaeth hefyd. Nododd Cyngor Cymuned Pennard fod y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn rhoi cyfle i gynghorau wneud mwy ond ei fod yn anodd ei gyflawni o ystyried y meini prawf sydd eu hangen i'w gael ac i alluogi ailddatgan blynyddol[115], a dywedodd Karen Brown, Clerc Cyngor Tref Bwcle:

> *"The General Power of Competence (GPOC) is a valuable tool for Councils, allowing greater flexibility in how they support their communities. While the three criteria required to attain GPOC are rightly set at a high standard, the need for annual re-declaration can be problematic if unforeseen circumstances occur—such as the resignation of a qualified Clerk or Councillors."*[116]

**165.** Cymharodd Un Llais Cymru ac SLCC systemau Cymru a Lloegr, gan nodi y gall cyngor plwyf yn Lloegr gadw'r Pŵer Cyffredinol tan yr etholiad llawn nesaf. Esboniodd SLCC fod yr ailddatganiad yn Lloegr yn dilyn y cyfarfod blynyddol ar ôl pob rownd o etholiadau'r cyngor ac felly, am dymor y cyngor hwnnw, gall arfer y pŵer. Gwnaethant ychwanegu:

> *"That appears, on the whole, to work well and successfully. It might be an alternative that could be considered that is seen as slightly less onerous."*[117]

**166.** Roedd Un Llais Cymru yn cytuno:

> *"You might lose one eligibility criterion, but then you could carry on as you are until the ordinary elections. That seems to be more sensible. I would suggest One Voice Wales would strongly support a change to that."*[118]

**167.** Cododd ymatebion i'n hymgynghoriad ysgrifenedig bryderon hefyd ynghylch oedi wrth gwblhau archwiliadau fel rhwystr. Dywedodd un ymatebydd fod angen adnoddau a chymorth ar gynghorau i fodloni'r achrediad, gan nodi bod llawer o gynghorau wedi methu â datgan Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol oherwydd yr ôl-groniad o archwiliadau[119], a dywedodd Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf:

---

[115] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 41 Cyngor Cymuned Pennard
[116] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 29 Karen Brown
[117] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 183
[118] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 322
[119] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 12 Dienw

> *"The time taken to complete audits is a cause of concern. Delays could impact on Councils claiming eligibility to exercise the General Power of Competence and have implications for setting budgets."*[120]

**168.** Cydnabu Archwilydd Cyffredinol Cymru rai problemau capasiti yn y blynyddoedd diwethaf wrth ymdrin ag ôl-groniad sylweddol iawn o waith, ond nododd fod Archwilio Cymru wedi rhoi mwy o adnoddau yn y sector a'u bod bellach mewn sefyllfa lawer gwell.[121]

## Ein barn ni

**169.** Nodwn fod y sector cynghorau tref a chymuned yn croesawu'r darpariaethau sy'n galluogi cynghorau i benderfynu eu bod yn gymwys i ddefnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r meini prawf cymhwystra yn amlwg yn rhwystr i rai cynghorau, er eu bod yn bodloni'r gofynion ar bapur. Er na chawsom ffigur pendant ar gyfer nifer y cynghorau sydd wedi arfer y pŵer hyd yma, mae'r ffigur bras o 30 yn ymddangos yn isel. O ystyried y gefnogaeth i'r pŵer, byddem wedi disgwyl i nifer y cynghorau sy'n dod yn gymwys fod yn uwch. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y pŵer yn dal i fod yn un cymharol newydd gan mai dim ond ers 2021 y bu ar gael.

**170.** Yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd gan y sector, credwn y byddai'n fuddiol archwilio a ddylid ailystyried y gofyniad i gynghorau ailddatgan eu cymhwystra yn flynyddol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y tri maen prawf cymhwystra, ond rydym yn pryderu nad yw cynghorau'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i arfer y pŵer oherwydd yr angen i ailddatgan yn flynyddol. Nodwn fod rhai tystion wedi cyfeirio at y trefniadau yn Lloegr ac wedi awgrymu bod y gofyniad yno i ailddatgan ar ôl pob cylch etholiadol yn fwy cymesur.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol fel mai dim ond unwaith yn ystod tymor etholiadol y mae'n ofynnol i gynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gadarnhau eu cymhwystra.

[120] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, CTC 51 Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf
[121] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 14 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion paragraffau 103-104

# Atodiad 1 Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 14 Tachwedd 2024 | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Deryck Evans, Rheolwr Archwilio,** Archwilio Cymru<br>**Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Justine Cass, Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Clive Wolfendale, Cadeirydd,** Fforwm Cenedlaethol Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau<br>**Dan Roberts, Swyddog Polisi ac Ymgysylltu,** Cwmpas |
| 27 Tachwedd 2024 | **Michelle Morris,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>**Emma Smith, Swyddog Cyswllt Polisi Cymru,** Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol<br>**Michael King, Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Allanol,** Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol<br>**Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr,** Un Llais Cymru<br>**Mike Theodoulou, Cadeirydd,** Un Llais Cymru<br>**Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr,** Un Llais Cymru<br>**Ian Hodge,** Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Robert Robinson, Ysgrifenydd i'r Gymdeithas,**<br>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| **5 Rhagfyr 2024** | **Jayne Bryant AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai<br>**Kevin Griffiths, Pennaeth Polisi Partneriaethau Llywodraeth Leol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2 Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **CTC 01** | Gwenfair Jones, Phil Rees, Arfon Jones |
| **CTC 02** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **CTC 03** | Bryony Nicholson |
| **CTC 04** | Cyngor Tref Caerfyrddin |
| **CTC 05** | Cyngor Tref Y Fenni |
| **CTC 06** | Cyngor Cymuned Llandochau |
| **CTC 07** | Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn |
| **CTC 08** | Cyngor Cymuned Llysfaen |
| **CTC 09** | Cyngor Cymuned Llangynyw |
| **CTC 10** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **CTC 11** | Cyngor Tref Llangollen |
| **CTC 12** | Dienw |
| **CTC 13** | Cyngor Cymuned Penarlâg |
| **CTC 14** | Cyngor Tref Abergele |
| **CTC 15** | Cyngor Tref Llandrindod |
| **CTC 16** | Roger Evans |
| **CTC 17** | Cyngor Cymuned Ceri |
| **CTC 18** | Dr Nathan Matthews |
| **CTC 19** | Cyngor Cymuned Abermiwl gyda Llandyssil |
| **CTC 20** | Cyngor Cymuned Tawe Uchaf |
| **CTC 21** | Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau |

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **CTC 22** | Un Llais Cymru |
| **CTC 23** | Justin Horrell |
| **CTC 24** | Cyngor Cymuned Acton |
| **CTC 25** | Cyngor Tref Aberystwyth |
| **CTC 26** | Cyngor Tref Y Bontfaen (Bwrdeisdref Hynafol) gyda Llanfleiddan |
| **CTC 27** | Sian Meredudd |
| **CTC 28** | Cwmpas |
| **CTC 29** | Karen Brown |
| **CTC 30** | Cyngor Cymuned Llanboidy |
| **CTC 31** | Dave Sheridan |
| **CTC 32** | Cyngor Tref Trefaldwyn |
| **CTC 33** | Cymdeithas Clercod Cyngor Lleol |
| **CTC 34** | Cyngor Tref Blaenafon |
| **CTC 35** | Fforwm Ieuenctid y Fro |
| **CTC 36** | Cyngor Cymuned Llangynog |
| **CTC 37** | Cyngor Cymuned Sain Ffagan |
| **CTC 38** | Cyngor Cymuned Llandyfaelog |
| **CTC 39** | Archwilio Cymru |
| **CTC 40** | Cyngor Tref Pontarddulais |
| **CTC 41** | Cyngor Cymuned Pennard |
| **CTC 42** | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe |
| **CTC 43** | Cyngor Cymuned Mawr |
| **CTC 44** | Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru |
| **CTC 45** | Cyngor Cymuned Crymych |
| **CTC 46** | Cyngor Cymuned Aberporth |
| **CTC 47** | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| **CTC 48** | Cyngor Cymuned Broughton a Bretton |
| **CTC 49** | Cyngor Cymuned Manafon |
| **CTC 50** | Unigolyn |

| Cyfeiriad | Sefydliad |
|---|---|
| **CTC 51** | Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf |
| **CTC 52** | Paul Evans |